

Y defnydd o'r Gymraeg yng Nghymru, 2013-15



I gael rhagor o wybodaeth am yr astudiaeth hon cysylltwch â:

Glyn Jones

Prif Ystadegydd

Gwasanaethau

Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 6691

E-bost:

dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk

Dyfan Sion

Cyfarwyddwr Polisi ac Ymchwil

Comisiynydd y Gymraeg

Siambrau'r Farchnad

5-7 Heol Eglwys Fair

Caerdydd

CF10 1AT

Ffôn: 0845 6033221

E-bost:

post@comisiynyddygyymraeg.cymru

I gael gwybodaeth dechnegol am sut y cynhaliwyd yr arolwg, cysylltwch â:

Martin Parry

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 0373

E-bost: dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk

SDR 197/2015

ISBN: 978-1-4734-6158-1

WG28267

F 2.0 (wedi ei ddiweddarau yn dilyn dynodiad Ystadegau Gwladol)

Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 26 Tachwedd 2015

© Hawlfraint y Goron 2015



Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

<http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/>

Cynnwys

Rhestr o ffigurau	2
Rhestr o dablau.....	5
1. Crynodeb gweithredol.....	6
2. Cefndir a diben yr arolwg.....	12
3. Sut y cynhaliwyd yr arolwg	16
4. Faint o bobl yng Nghymru sydd yn siarad Cymraeg?	20
5. Pa mor dda y gall pobl siarad Cymraeg?.....	23
6. Pa mor dda y gall siaradwyr Cymraeg ysgrifennu Cymraeg?	34
7. Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith?.....	37
8. Pa iaith y mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?.....	46
9. Ble y dysgodd siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith?	50
10. Iaith y cartref yn ystod plentyndod.....	54
11. Iaith addysg	58
12. Ym mha sefyllfaoedd y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith?	67
13. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned	72
14. Negeseuon testun, e-bost a defnyddio cyfryngau cymdeithasol.....	78
15. Delio â sefydliadau cyhoeddus yn y Gymraeg.....	84
16. Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.....	90
17. Llyfryddiaeth	102
18. Atodiad A: Gwybodaeth allweddol am ansawdd.....	107
19. Atodiad B: Faint o bobl yng Nghymru sydd yn siarad Cymraeg?	113
20. Atodiad C: Holiaduron	118

Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Nifer y bobl tair oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg, 1911-2011	20
Ffigur 2: Canran y boblogaeth tair oed a throsodd sydd yn siarad Cymraeg yn ôl oedran	21
Ffigur 3: Canran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl ardal awdurdod lleol	22
Ffigur 4: Canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl rhuglder.....	24
Ffigur 5: Canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl rhuglder ac oedran	25
Ffigur 6: Canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl rhuglder, oedran ac arolwg	26
Ffigur 7: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl rhuglder	27
Ffigur 8: Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl yn ôl oedran ac arolwg	29
Ffigur 9: Canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl yn ôl ardal awdurdod lleol	30
Ffigur 10: Disgrifiad siaradwyr Cymraeg o'u gallu i ysgrifennu yn Gymraeg yn ôl eu rhuglder a'u hoedran.....	36
Ffigur 11: Pa mor aml y mae'r boblogaeth yn siarad Cymraeg	38
Ffigur 12: Canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl amllder ac oedran	39
Ffigur 13: Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg	40
Ffigur 14: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl amllder siarad Cymraeg ac oedran	41
Ffigur 15: Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd yn ôl oedran ac arolwg	42
Ffigur 16: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl amllder siarad yr iaith ac ardal awdurdod lleol	43
Ffigur 17: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg fwyaf cartrefol yn ei defnyddio	47
Ffigur 18: Ble yn bennaf y bu i siaradwyr Cymraeg ddysgu'r iaith yn ôl oedran	51
Ffigur 19: Rhuglder siaradwyr Cymraeg yn ôl ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg.	52
Ffigur 20: Canran siaradwyr Cymraeg rhugl a ddim yn rhugl ag o leiaf un rhiant rhugl yn y Gymraeg	55
Ffigur 21: Ble dysgwyd siarad Cymraeg yn ôl a oes rhiant rhugl ganddynt	56
Ffigur 22: Canran sydd ag o leiaf un rhiant yn rhugl yn y Gymraeg yn ôl oed	57
Ffigur 23: Iaith addysg uwchradd siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl oedran	61
Ffigur 24: Canran sydd yn rhugl yn Gymraeg yn ôl iaith eu haddysg uwchradd.....	62
Ffigur 25: Nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl a ddim yn rhugl, yn ôl iaith eu haddysg uwchradd.....	63

Ffigur 26: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg 11 i 15 oed yn astudio pynciau ynnddi yn yr ysgol uwchradd.....	64
Ffigur 27: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg rhugl 11 i 15 oed yn astudio pynciau ynnddi yn yr ysgol uwchradd	65
Ffigur 28: Yr iaith a siaredir gartref gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl oedran.....	69
Ffigur 29: Yr iaith a siaredir yn bennaf gan blant a phobl ifanc rhugl 3 i 15 oed gyda ffrindiau ac yn yr ysgol	70
Ffigur 30: Mynychu digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl ardal awdurdod lleol	74
Ffigur 31: Mynychu digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol yn ôl ble dysgwyd i siarad Cymraeg	75
Ffigur 32: Cyfran y bobl ifanc sydd wedi mynychu digwyddiad cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl rhuglder	76
Ffigur 33: Y defnydd o'r Gymraeg ar ffonau symudol wrth gyfathrebu â'u ffrindiau yn ôl rhuglder ac oedran.....	80
Ffigur 34: Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg i ysgrifennu ar Facebook a Twitter yn ôl grŵp oedran.	82
Ffigur 35: Ceisio defnyddio'r Gymraeg â sefydliadau cyhoeddus yn ôl amllder siarad Cymraeg	86
Ffigur 36: Ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus yn ôl y defnydd o'r Gymraeg yn rhinwedd eu swydd.....	87
Ffigur 37: Llwyddiant wrth geisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus	89
Ffigur 38: Cefnogaeth cyflogwr yn ôl iaith siarad yn y gwaith	92
Ffigur 39: Canrannau sydd yn siarad Cymraeg gyda'u cydweithwyr, yn ôl oedran a rhuglder	93
Ffigur 40: Canran sydd yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr yn ôl ardal awdurdod lleol	94
Ffigur 41: Canran sydd yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad yn ôl ardal awdurdod lleol	95
Ffigur 42: Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'w cwmni neu'r sefydliad yn ôl ble y dysgwyd y Gymraeg	96
Ffigur 43: Ysgrifennu yn y gwaith yn ôl gallu ysgrifennu.....	97
Ffigur 44: Canfyddiad am agwedd cyflogwyr tuag at yr iaith Gymraeg, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth a gweithredoedd y cyflogwyr	98
Ffigur 45: Canrannau y cynigiwyd iddynt rywbeth i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth, a rhuglder	100

Ffigur 46: Canran disgrifiadau swydd siaradwyr Cymraeg sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi'u nodi ynddynt, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth, a rhuglder ..	101
Ffigur 47: Canran pobl Cymru sydd yn siarad Cymraeg yn ôl oedran a ffynhonnell	114
Ffigur 48: Cyfran y bobl tair oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI), 2011.....	116

Rhestr o dablau

Tabl 1: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl rhuglder ac oedran	28
Tabl 2: Siaradwyr Cymraeg yn ôl rhuglder ac ardal awdurdod lleol, 2004-06 a 2013-15	32
Tabl 3: Niferoedd a chanrannau pobl sydd yn siarad Cymraeg bob dydd yn ôl ardal awdurdod lleol ac arolwg	44
Tabl 4: Canran y siaradwyr Cymraeg sydd fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith, yn ôl oedran	48
Tabl 5: Canrannau siaradwyr Cymraeg rhugl a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg sydd fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ôl oedran.....	48
Tabl 6: Canran y siaradwyr Cymraeg a gafodd eu haddysg feithrin, cynradd neu uwchradd yn Gymraeg yn unig neu'n bennaf	60

1. Crynodeb gweithredol

1.1. Canfyddiadau allweddol

Mae canran a nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn eithaf cyson â'r ganran a'r nifer yn Arolygon Defnydd Iaith 2004-06, ond mae 130,700 yn fwy o bobl yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl erbyn hyn.

- Mae 11 y cant o bobl tair oed a throsodd sydd yn byw yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl; 12 y cant oedd yn rhugl yn 2004-06.
- Bu cynnydd ymhob grŵp oedran o ran y nifer a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl ond bu cynnydd sylweddol ar gyfer y grwpiau oedran 3 i 15 oed ac 16 i 29 oed.
- Mae bron i hanner o'r holl siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl a 21 y cant yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg. Yn 2004-06, dywedodd 58 y cant o siaradwyr Cymraeg eu bod yn rhugl a 21 y cant eu bod yn siarad cryn dipyn o Gymraeg.
- Mae crynodiad uchaf y siaradwyr Cymraeg rhugl yn ardaloedd awdurdodau lleol gorllewin Cymru gyda'r crynodiad uchaf yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.
- Fodd bynnag, yn yr ardaloedd lle y ceir y crynodiad uchaf o siaradwyr Cymraeg y gwelwyd rhai o'r gostyngiadau mwyaf ers 2004-06 o ran y nifer sydd yn rhugl. Mae hyn yn adlewyrchu'r lleihad a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn ôl Cyfrifiad 2011.
- I'r gwrthwyneb gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ers 2004-06 yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf, 7,100 yn fwy o siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghaerdydd a 5,300 yn fwy yn Rhondda Cynon Taf.

Nid yw'r ganran o boblogaeth Cymru sydd yn siarad Cymraeg bob dydd wedi newid o'i gymharu ag Arolygon Defnydd Iaith 2004-06, ac mae cyswllt clir rhwng rhuglder ac amlder defnydd o'r Gymraeg.

- Mae 13 y cant o bobl tair oed a throsodd yn siarad Cymraeg bob dydd. 13 y cant oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 hefyd.
- Mae ychydig dros hanner y siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd; mae bron i un ymhob pump yn siarad Cymraeg bob wythnos.

- Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad yr iaith yn fwy aml na siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl. Mae 84 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.
- Mae crynodiad uchaf y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd yn ardaloedd awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru, gyda'r crynodiad ar ei uchaf yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn yr ardaloedd hyn y ceir y canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg felly mae'n debyg eu bod yn cynnig mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn aml.
- Yn yr ardaloedd hyn lle mae'r crynodiad uchaf o siaradwyr Cymraeg y gwelwyd y gostyngiad mwyaf ers 2004-06 o ran y nifer sydd yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r lleihad a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn ôl Cyfrifiad 2011.
- Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sydd yn siarad Cymraeg bob dydd yn ne-ddwyrain Cymru, ac yn enwedig yng Nghaerdydd.

Mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn fwy tebygol o fod wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol nag yn unrhyw le arall. Mae siaradwyr Cymraeg hŷn yn fwy tebygol o fod wedi dysgu'r Gymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc nag yn unrhyw le arall.

- Mae 43 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu'r Gymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc, 11 y cant yn yr ysgol feithrin, 25 y cant yn yr ysgol gynradd a 15 y cant yn yr ysgol uwchradd.
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg a ddysgodd siarad Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc yn amrywio rhwng 21 y cant o bobl ifanc 3 i 15 oed i 79 y cant o bobl 65 oed a throsodd.
- Mae'r ganran a oedd wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol hefyd yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran felly, o 79 y cant o bobl ifanc rhwng 3 a 15 mlwydd oed i 13 y cant o bobl 65 oed a throsodd. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw'r newid sylweddol yn y sector addysg Gymraeg dros yr hanner can mlynedd diwethaf, gyda chynnydd yn nifer y disgyblion sydd yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn nifer yr ysgolion Cymraeg eu hiaith sydd wedi eu hagor ledled Cymru.
- Mae siaradwyr Cymraeg a ddysgodd y Gymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc yn fwy tebygol o fod yn rhugl na'r rhai a ddysgodd siarad yr iaith yn yr ysgol.

Mae pobl ifanc yn fwy tebygol na phobl hŷn o fod wedi derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf.

- Mae cyfran yr oedolion wnaeth fynychu ysgol feithrin, gynradd neu uwchradd ble mai'r Gymraeg yn unig neu'n bennaf oedd cyfrwng iaith eu haddysg yn uwch ymysg y grŵp dan 45 oed nag yn y grŵp 45 oed a throsodd. Mae angen cadw mewn cof fodd bynnag nad oedd addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn yr un modd ag y mae heddiw pan roedd y rhai 45 oed a throsodd yn yr ysgol.
- Mae cyfran lawer yn uwch o oedolion sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl wedi derbyn eu haddysg feithrin, cynradd neu uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn rhugl.

Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob amser, neu bron bob amser, yn yr ysgol nag ydynt o wneud hynny gyda'u ffrindiau neu gartref.

- Mae 21 y cant o holl siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg gartref bob amser neu bron bob amser. Mae hyn yn cynyddu i 43 y cant ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r ganran hon yn cynyddu'n raddol yn ôl oedran o 29 y cant o bobl ifanc rhwng 3 a 15 mlwydd oed i 56 y cant o bobl 65 oed a throsodd.
- Mae 67 y cant o'r bobl ifanc rhwng 3 a 15 oed sydd yn rhugl yn y Gymraeg yn siarad Cymraeg bob amser yn yr ysgol. 26 y cant o'r grŵp hwn sydd bob amser yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau.
- Mae llai na hanner o'r rhai a ddysgodd i siarad Cymraeg gartref, boed yn rhugl neu heb fod yn rhugl, yn defnyddio'r Gymraeg gartref bob amser neu bron bob amser.
- Mae 57 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl wedi defnyddio'r Gymraeg yn eu sgwrs ddiwethaf gyda rhywun nad yw'n perthyn iddynt.

Mae cyfeiriadau isod at ddefnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau digidol yn cynnwys defnyddio'r Gymraeg bob amser neu bron bob amser, y Gymraeg yn bennaf, neu'r Gymraeg a'r Saesneg yn weddol gyfartal fel arfer wrth ddefnyddio'r cyfryngau digidol. Mae'n bosibl bod ymatebwyr a nododd eu bod yn defnyddio 'Saesneg yn bennaf' neu 'bob amser/bron bob amser yn Saesneg' hefyd yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg. Fodd bynnag, gan nad oes modd gwybod i sicrwydd mai'r Gymraeg (ac nid iaith arall) yw'r iaith a ddefnyddir ynghyd â'r Saesneg yn yr achosion hyn, nid yw'r ddau grŵp hyn wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Mae ychydig dros chwarter o holl siaradwyr Cymraeg sydd yn defnyddio neges destun yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg i anfon negeseuon testun o ffôn symudol at ffrind.



- Mae hyn yn cynyddu i ychydig dros hanner o siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg wrth anfon negeseuon testun.
- Mae 18 y cant o holl siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd sydd yn defnyddio Facebook yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg, tra bo 12 y cant yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg ar Twitter.

Mae ychydig dros hanner siaradwyr Cymraeg yn ceisio defnyddio'r Gymraeg, yn achlysurol man lleiaf, wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus.

- Mae siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd ddwywaith yn fwy tebygol o geisio defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus na'r rhai hynny sydd yn siarad Cymraeg yn llai aml.
- Mae'r mwyafrif sydd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus yn achlysurol man lleiaf yn llwyddo o leiaf weithiau wrth ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft drwy siarad â rhywun yn y Gymraeg neu gael deunyddiau yn y Gymraeg.
- O'r unigolion hynny sydd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob amser gyda sefydliadau cyhoeddus, mae ychydig dros hanner ohonynt yn teimlo eu bod yn llwyddo bob tro neu bron bob tro.
- Mae naw o bob deg siaradwr Cymraeg sydd bob amser yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus weithiau man lleiaf.

1.2. Cymariaethau ag Arolygon Defnydd Iaith 2004-06

Mae'r diagramau canlynol yn dangos y gwahaniaethau rhwng nifer y bobl a roddodd ymatebion penodol i rai o'r cwestiynau yn Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 a 2013-15. Mae gwahaniaethau bach yn annhebygol o fod yn arwyddocaol (yn ystadegol ac fel arall).



Mae'r diagramau yn dangos bod nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi aros yn weddol gyson tra bo cynnydd i weld yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd. Mae gostyngiad wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi dysgu siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc ac felly hefyd yn y nifer sydd yn siarad yr iaith gartref bob amser neu bron bob amser. I'r gwrthwyneb mae cynnydd wedi bod yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd wedi derbyn addysg gynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol ac felly yn y nifer sydd yn siarad yr iaith yn yr ysgol.

2. Cefndir a diben yr arolwg

2.1. Cefndir

Comisiynwyd Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn 2013. Cynhaliwyd yr arolwg hwn dros gyfnod o ddwy flynedd rhwng 2013 a 2015. Cyhoeddwyd canlyniadau blwyddyn gyntaf yr arolwg (2013-14) ar 29 Ionawr 2015 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015a).

Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992 oedd yr arolwg cenedlaethol cyntaf am y defnydd o'r Gymraeg. Gofynnodd yr arolwg hwn, a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gymreig, am allu ymatebwyr i siarad Cymraeg ac i ba raddau roeddynt yn ei defnyddio (Y Swyddfa Gymreig 1995). Defnyddiwyd yr wybodaeth a gasglwyd ynghylch y Gymraeg i ychwanegu at yr wybodaeth a oedd ar gael drwy Gyfrifiad 1991.

Cynhaliwyd ymchwil pellach i'r defnydd o'r Gymraeg ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg a chyhoeddwyd y canfyddiadau yn adroddiadau *Arolygon Defnydd Iaith 2004-06* (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2008).

Mae'r Cyfrifiad, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg Cenedlaethol Cymru yn cynnig peth gwybodaeth ynghylch nifer y bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg.¹ Ceir rhai enghreifftiau o arolygon graddfa fechan sydd yn gofyn am y defnydd o'r iaith. Er enghraifft, comisiynodd BBC Cymru Wales, S4C a Llywodraeth Cymru ymchwil yn 2013 i archwilio ymddygiad, agweddau a dyheadau siaradwyr Cymraeg o ran eu defnydd o'r iaith mewn sefyllfaoedd amrywiol o ddydd i ddydd. Roedd yr ymchwil yn cynnwys arolwg meintiol o 483 o siaradwyr Cymraeg (BBC Cymru Wales, S4C a Llywodraeth Cymru 2013).

Cynhaliwyd ymchwil yn ogystal ar faterion penodol yn ymwneud â'r Gymraeg fel rhan o Arolwg Omnibws Cymru (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009a, 2009b, 2009c, 2009ch a 2009d). Fodd bynnag, ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06, ni chasglwyd gwybodaeth gynhwysfawr ar raddfa fawr am allu pobl i siarad Cymraeg a'r defnydd a wneir o'r iaith ar aelwydydd ac mewn cymunedau yng Nghymru.

¹ <https://statsecymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Welsh-Language>

2.2. Diben yr arolwg

Casglodd Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 wybodaeth gan oedolion a phobl ifanc sydd yn siarad Cymraeg er mwyn gweld pa mor dda y gallant siarad yr iaith, pa mor aml, ble, pryd, ac â phwy y maent yn ei defnyddio.

Comisiynwyd yr ymchwil a pharatowyd yr adroddiad hwn ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. Mae'r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau llawn yr Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 ac felly ni wneir cymariaethau rhwng blynyddoedd unigol o fewn y cyfnod hwn. Gwneir hyn gan mai pwrpas yr arolwg oedd cael darlun o'r Gymraeg yn y degawd hwn, nid er mwyn asesu newid dros gyfnod o flwyddyn. Mae canlyniadau llawn yr arolwg yn seiliedig ar sampl o 7,175 o siaradwyr Cymraeg o'i gymharu â sampl adroddiad 2013-14 o 3,848, sydd yn ein galluogi i wneud dadansoddiadau ychwanegol i'r rhai a gyflwynir yn adroddiad 2013-14.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnig dadansoddiad o allu ieithyddol siaradwyr Cymraeg yng Nghymru a'u defnydd ohoni mewn cyd-destunau amrywiol. Mae'n cynnwys rhai cymariaethau lle mae hynny'n bosibl gydag Arolygon Defnydd Iaith 2004-06. Mae maint sampl yr arolwg dros ddwy flynedd wedi caniatáu dadansoddiadau ar lefel ranbarthol nad oeddent yn bosibl ar sail blwyddyn gyntaf yr arolwg yn unig. Mae'n bwysig nodi bod dadansoddiadau yn ôl ardaloedd awdurdodau lleol yn seiliedig ar leoliad cartref yr ymatebwyr.

Ni fwriedir i'r arolwg hwn ddarparu amcangyfrifon newydd ar nifer y bobl sydd yn siarad Cymraeg yng Nghymru. Rydym yn ystyried mai Cyfrifiad 2011 yw'r brif ffynhonnell awdurdodol o wybodaeth am hyn o hyd (gweler [Atodiad B](#)).

Bydd yr adroddiad yn cynnig sail tystiolaeth i waith Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg ac eraill sydd yn ymwneud â chynllunio dyfodol y Gymraeg. Bydd hefyd o gymorth i sefydliadau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wrth iddynt gynllunio eu gwasanaethau Cymraeg yn effeithiol.

Mae ystod eang o sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn gwneud defnydd o'r Arolwg Defnydd Iaith. Mae hyn yn cynnwys sefydliadau â rôl benodol o hyrwyddo'r Gymraeg, er enghraifft y Mentrau Iaith, a hefyd:

- **llywodraeth leol** – defnyddir yr ystadegau wrth lunio, monitro a gwerthuso polisiau megis polisiau cynllunio lleol;
- **cyrff y sector cyhoeddus** – mae'r ystadegau'n cael eu defnyddio fel gwybodaeth gyd-destunol wrth gynllunio gwasanaethau, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau sydd ar gael yn adlewyrchu proffil ieithyddol ardaloedd penodol;
- **darlledwyr** - mae'r ystadegau hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth darlledwyr o nodweddion demograffig y boblogaeth ac yn caniatáu iddynt gynllunio eu gwasanaethau ar eu cyfer;
- **academia** – caiff yr ystadegau eu defnyddio gan academyddion i ddeall proffil sosioieithyddol Cymru ac wrth gynnal gwaith ymchwil i sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru;
- **cyfryngau** – cyfeiria'r cyfryngau at yr ystadegau weithiau wrth adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru yn y newyddion.

I ategu'r adroddiad hwn, caiff cyfres o dablau eu cyhoeddi ar wefan [StatsCymru](#), a chaiff y data eu rhoi yn [Archif Ddata'r DU](#) er mwyn i eraill allu dadansoddi'r data drostynt eu hunain.

2.3. Polisi a chyd-destun

Mae Strategaeth y Gymraeg 2012-17 Llywodraeth Cymru, *laith fyw: iaith byw*, yn amlinellu dyhead Llywodraeth Cymru i weld cynnydd yn nifer y bobl sydd yn siarad Cymraeg ac sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd. Cyflwynir yr amcanion hyn mewn chwe maes strategol: y teulu, plant a phobl ifanc, y gymuned, y gweithle, gwasanaethau Cymraeg a seilwaith (Llywodraeth Cymru 2012a). Mae datganiad polisi Llywodraeth Cymru, *Bwrw Mlaen*, yn adeiladu ar Strategaeth y Gymraeg gan ystyried nifer o ddatblygiadau ers cyhoeddi'r strategaeth yn 2012 ac yn canolbwyntio ar bedair thema: yr economi a'r Gymraeg, cynllunio strategol, y Gymraeg yn y gymuned a newid ymddygiad ieithyddol (Llywodraeth Cymru 2014a).

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru i'w helpu i fesur cynnydd tuag at gyflawni rhai o'r amcanion hyn ac yn nodi meysydd lle y mae angen cryfhau polisi a'i ddatblygu ymhellach.

Ochr yn ochr â Strategaeth y Gymraeg, mae gan Lywodraeth Cymru hefyd Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2012b). Mae'r strategaeth yn cyflwyno cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio a chyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob cyfnod addysg a hyfforddiant. Bydd canfyddiadau'r arolwg hwn yn taflu goleuni ar rai agweddau sydd yn berthnasol i'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae hyrwyddo a gwarchod y Gymraeg yn un o'i nodau.

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sef corff annibynnol a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd canlyniadau'r Arolwg Defnydd Iaith yn darparu tystiolaeth bwysig i'r Comisiynydd ynghylch y defnydd o'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Un o brif amcanion strategol Comisiynydd y Gymraeg yw sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg yn y broses o ddatblygu polisiau a deddfwriaeth. Mae cyflawni hyn yn ddibynnol i raddau helaeth ar dystiolaeth a data i gefnogi'r gwaith. Bydd yr Arolwg Defnydd Iaith yn cyfrannu at y sail tystiolaeth ynghylch sefyllfa'r Gymraeg. Bydd y dystiolaeth o'r arolwg hefyd yn ddefnyddiol at bwrpas paratoi adroddiad pum mlynedd y Comisiynydd ar sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn darparu ar gyfer sefydlu fframwaith newydd o ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, ar ffurf safonau. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru gydymffurfio â'r safonau cyntaf o fis Mawrth 2016, a bydd gofyn i nifer sylweddol o gyrff eraill yng Nghymru gydymffurfio â'r safonau maes o law.

Mae'r Arolwg Defnydd Iaith yn cynnig gwybodaeth i sefydliadau a defnyddwyr eraill a fydd yn ddefnyddiol iddynt wrth ddatblygu polisiau a chynllunio gwasanaethau yn unol â safonau'r Gymraeg.

Mae'r wybodaeth a geir yma yn cyfrannu at y sail tystiolaeth ehangach ar y Gymraeg a'r defnydd a wneir ohoni ac yn ychwanegu at ffynonellau gwybodaeth megis y Cyfrifiad a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

3. Sut y cynhaliwyd yr arolwg

Penderfynwyd cynnal Arolwg Defnydd Iaith fel elfen atodol o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn hytrach na chynnal arolwg ar wahân (gweler [Atodiad A](#)).² Roedd hyn yn sicrhau ei fod yn gost effeithiol, ac y byddai modd cymharu'r canlyniadau os yn bosibl gydag arolygon blaenorol. Roedd y dull hwn yn debyg i'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer Arolygon Defnydd Iaith 2004-06, a oedd yn elfen atodol o'r Arolwg Byw yng Nghymru. Cynhaliwyd yr arolwg dros gyfnod o ddwy flynedd o Ebrill 2013 hyd Mawrth 2015.

Gofynnwyd i'r oedolion a ddewiswyd ar hap gymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol Cymru nodi pob aelod ar eu haelwyd sydd yn gallu siarad Cymraeg. Cafodd pob siaradwr Cymraeg gopi o holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith i'w lenwi a'i ddychwelyd drwy'r post. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith rhwng 1 Ebrill 2013 a 31 Mawrth 2015 drwy gydol y flwyddyn.

Datblygwyd yr holiaduron a ddefnyddiwyd ar gyfer arolygon 2013-15 ar y cyd gan Gomisiynydd y Gymraeg a Llywodraeth Cymru. Nid oedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau wedi eu newid ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06. Fodd bynnag, cyflwynwyd rhai cwestiynau newydd, megis cwestiynau ynghylch y defnydd o'r Gymraeg ar gyfer anfon negeseuon testun, e-bostio ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Roedd dau fath o holiadur: un ar gyfer oedolion (16 oed a throsodd) ac un ar gyfer plant a phobl ifanc (3 i 15 oed). Cafodd yr holiadur i bobl ifanc ei gwblhau gan y rhiant, neu gan y person ifanc os oedd dros 12 oed ac os oedd yn dymuno cwblhau'r holiadur. Roedd modd cwblhau'r holiaduron yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ceir copïau o'r ddau holiadur yn [Atodiad C](#).

Roedd gan yr holiaduron ar gyfer oedolion a phobl ifanc gwestiynau ynghylch y canlynol:

- deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg;
- y gallu i siarad Cymraeg (o fod yn rhugl i allu dweud ychydig eiriau yn unig);
- ble y dysgwyd y Gymraeg;
- pa iaith a ddefnyddir mewn amryw o sefyllfaoedd bob dydd;
- amllder siarad Cymraeg;
- pa iaith a ddefnyddir i anfon negeseuon digidol a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol;
- mynd i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon a gynhaliwyd yn Gymraeg.

² Ym mis Tachwedd 2014 penderfynwyd cyfuno Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Iechyd Cymru, Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru, Arolwg o Hamdden yn yr Awyr Agored yng Nghymru a'r Arolwg ar Oedolion Egnïol yn arolwg sengl. Bydd yr arolwg newydd yn cael ei enwi yn Arolwg Cenedlaethol Cymru a bydd yn dechrau yn 2016-17.

Roedd cwestiynau ychwanegol yn yr holiadur ar gyfer oedolion ynghylch:

- gallu rhieni i siarad Cymraeg;
- ym mha iaith y cynhaliwyd y sgwrs fwyaf diweddar (y tu allan i'r teulu);
- y gallu i ysgrifennu yn Gymraeg;
- iaith addysg ar gamau amrywiol;
- defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus;
- ai'r Gymraeg neu'r Saesneg y mae siaradwyr yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio;
- cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith ac agwedd y cyflogwr at yr iaith.

Roedd cwestiynau ychwanegol yn yr holiadur ar gyfer pobl ifanc (3 i 15 oed) ar y canlynol:

- gallu aelodau o'r teulu i siarad Cymraeg;
- ym mha iaith yr addysgir pynciau yn yr ysgol;
- ai'r person ifanc neu'r rhiant a lenwodd yr holiadur.

Wrth ddehongli canlyniadau'r arolwg, dylid cadw mewn cof bod rhai atebion yn oddrychol o'u hanfod. O ddau berson sydd ag union yr un gallu i siarad Cymraeg, gallai un ystyried ei hun yn rhugl a gallai'r llall feddwl mai dim ond tipyn o Gymraeg y mae'n gallu ei siarad. Ni ddylid ystyried bod gwahaniaethau bychan a welir yn y data yn fwy arwyddocaol nag yr ydynt.

Dylid cadw mewn cof hefyd bod yr holiadur ar gyfer pobl ifanc (3 i 15 oed) wedi ei gwblhau gan y rhiant, neu gan y person ifanc os oedd y person ifanc dros 12 oed ac yn dymuno cwblhau'r holiadur. Mae asesiad rhiant o allu a defnydd eu plentyn o'r Gymraeg yn gallu bod yn eithaf goddrychol yn yr un modd ag y gall ei asesiad o'i allu a'i ddefnydd o'r Gymraeg hefyd fod yn oddrychol.

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau yma fel Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007, ac yn arwydd o gydymffurfiaid â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Gwladol.

Gellir dehongli'r dynodiad yn sgil yr ystadegau, eu bod yn:

- cwrdd â gofynion defnyddwyr;
- wedi eu disgrifio'n dda a'u bod yn hygyrch;
- wedi eu cynhyrchu i ddulliau cadarn, ac
- wedi eu rheoli'n ddiudedd ac yn wrthrychol er lles y cyhoedd.

Unwaith bod ystadegau wedi eu dynodi fel Ystadegau Gwladol, y mae'n ofyniad statudol i barhau i ddilyn y Cod Ymarfer.

3.1. Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Comisiynwyd Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 er mwyn ychwanegu at yr wybodaeth a geir yng Nghyfrifiad 2011 (yn yr un modd ag a wnaethpwyd ar gyfer arolygon defnydd iaith 1992 a 2004-06). Hyd yma, nid oes unrhyw gynlluniau wedi eu gwneud i ailadrodd yr arolwg yn y dyfodol agos. Bydd Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn ystyried anghenion defnyddwyr wrth ddod i unrhyw benderfyniadau ynghylch comisiynu parhad i'r arolwg. Wrth gyflwyno canlyniadau'r adroddiad interim gofynnwyd barn defnyddwyr am arolygon yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf o ddefnyddwyr eisiau diweddariad i'r arolwg ymhen blwyddyn i bum mlynedd. Bydd angen cydbwysu'r angen am ddiweddariad o'r data hyn gyda'r adnoddau sydd ar gael a blaenoriaethau ymchwil eraill yn ystod y cyfnod hwn.

Er i Arolwg Cenedlaethol Cymru gael ei gyfuno â phedwar arolwg arall o 2016-17 ymlaen, bydd modd parhau â'r drefn gyfredol o gynnal arolygon dilynol ar bynciau penodol fel elfennau atodol.

Os ydych yn dymuno derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ystadegau yn ymwneud â'r Gymraeg, cysylltwch â [Llywodraeth Cymru](#) neu [Gomisiynydd y Gymraeg](#).

3.2. Cyfrifoldebau

Mae Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am gynhyrchu'r ystadegau hyn ar y cyd, gan gynnwys dadansoddi a lledaenu'r ystadegau. Mae fframwaith cydweithio ar waith rhwng y ddau sefydliad o ran ystadegau ac ymchwil, sydd yn amlinellu sut y mae'r ddau sefydliad yn rhannu gwybodaeth ac yn adnabod cyfleoedd i weithio ar y cyd yn y meysydd hyn (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, 2015b). Fodd bynnag, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb dros ystadegau a chynnwys yr adroddiad hwn.

Mae'r adroddiad hwn ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru a gwefan Comisiynydd y Gymraeg.

3.3. Cyd-destun rhyngwladol


Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y darlun ehangach o ran sut y mae ieithoedd yn cael eu defnyddio mewn cyd-destunau dwyieithog. Mae'r Gymraeg yn rhan o'r Siarter Ewropeaidd ar gyfer ieithoedd Rhanbarthol neu Ieithoedd Lleiafrifol. Ceir gwybodaeth am y defnydd o'r Wyddeleg yng Ngweriniaeth Iwerddon a Gogledd Iwerddon yn *Attitudes towards the Irish Language on the Island of Ireland (The Economic and Social Research Institute a Foras na Gaeilge 2015)*, a chyhoeddwyd canlyniadau arolwg o agweddau tuag at yr Aeleg yn yr Alban, a'r defnydd a wneir o'r iaith honno, yn 2011 (Llywodraeth yr Alban/*Riaghaltas na h-Alba 2011*). Ceir gwybodaeth hefyd am ddefnyddio Gaeleg yn y cartref yn yr Alban yn *Scotland's Census 2011: Gaelic report* (Cofnodion Cenedlaethol yr Alban 2015). Ers nifer o flynyddoedd bellach mae arolygon sydd yn cynnwys cwestiynau am ddefnydd iaith yn nodwedd bwysig o ymchwil sosioieithyddol yng nghymunedau ymreolus Sbaen. Ceir gwybodaeth am allu a defnydd y Fasgeg (*euskara*) yn Arolwg Sosioieithyddol 2011 (*Eusko Jauriaritza 2013*) ac yn *Mapa Soziolinguistikoa 2011 (Eusko Jauriaritza 2014)*, a chynhaliwyd yr *Enquesta d'usos lingüístics de la població diweddaraf* yng Nghatalunya yn 2013 (*Generalitat de Catalunya 2014*). Ychwanegwyd modiwl ar allu a defnydd yr iaith *galego* at arolwg blynyddol amodau byw Galicia yn 2013 (*Instituto Galego de Estatística 2014*).

4. Faint o bobl yng Nghymru sydd yn siarad Cymraeg?

Diben yr Arolwg Defnydd Iaith oedd cynnig darlun o ba mor rhugl yw siaradwyr Cymraeg a sut y maent yn defnyddio'r iaith. Rydym yn ystyried mai Cyfrifiad 2011 yw'r brif ffynhonnell wybodaeth o hyd ynghylch nifer y bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg.

Dros y ganrif ddiwethaf mae'r Cyfrifiad wedi dangos gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg o bron i filiwn yn 1911 i hanner miliwn yn 1981, gyda'r rhai oedd yn siarad Cymraeg yn unig wedi diflannu erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif. Mae llawer o wahanol resymau cymdeithasol cymhleth am y dirywiad hwn ac mae'n faes sydd wedi derbyn sylw helaeth yn y llenyddiaeth (gweler, er enghraifft Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2012). Yn fwy diweddar gwelwyd cynnydd yn 2001, a hyn yn atal y dirywiad cyson a welwyd yn y ganrif flaenorol. Er bod y ffigur o 19.0 y cant, neu 562,000 o siaradwyr Cymraeg, yn 2011 yn ostyngiad o 2001 roedd yn uwch nac ym 1991 (Llywodraeth Cymru 2012c).


Ffigur 1: Nifer y bobl tair oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg, 1911-2011



Yn yr un modd ag arolygon aelwyd eraill, mae'r amcangyfrifon o ran nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg yn yr Arolwg Defnydd Iaith yn uwch na chanlyniadau'r Cyfrifiad. Mae sawl rheswm posibl dros hyn ac ystyrir y materion hyn mewn manylder yn [Atodiad B](#). Gan ddefnyddio'r data a gasglwyd o'r Arolwg Defnydd Iaith byddai'n bosibl cynnal gwaith ymchwil pellach yn y dyfodol ar y gwahaniaethau â'r Cyfrifiad er mwyn deall yn well y gwahaniaethau rhwng ymatebion unigolion.


Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013-15, roedd 24 y cant o'r boblogaeth tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Roedd y ganran sydd yn gallu siarad Cymraeg yn gostwng gydag oedran; roedd ar ei huchaf ar gyfer y grŵp oedran 3 i 15 oed sef 41 y cant, ac ar ei hisaf ar gyfer y grŵp oedran 45 i 64 oed sef 18 y cant. Mae'r ffigur isod yn dangos canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl oedran.

Ffigur 2: Canran y boblogaeth tair oed a throsodd sydd yn siarad Cymraeg yn ôl oedran



Roedd canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg hefyd yn amrywio yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae'r map isod yn dangos y ganran o'r boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl ardal awdurdod lleol.

Ffigur 3: Canran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl ardal awdurdod lleol



Yng ngorllewin Cymru yr oedd y crynodiad uchaf o siaradwyr Cymraeg, yn enwedig felly yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Roedd canran y boblogaeth sydd yn gallu siarad Cymraeg isaf yn ne-ddwyrain Cymru.

5. Pa mor dda y gall pobl siarad Cymraeg?

5.1. Prif ganfyddiadau

Mae canran a nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn eithaf cyson â'r ganran a'r nifer yn Arolygon Defnydd Iaith 2004-06, ond mae 130,700 yn fwy o bobl yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl erbyn hyn.

- Mae 11 y cant o bobl tair oed a throsodd sydd yn byw yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl; 12 y cant oedd yn rhugl yn 2004-06.
- Bu cynnydd ymhob grŵp oedran yn y nifer a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl ond bu cynnydd sylweddol ar gyfer y grwpiau oedran 3 i 15 oed ac 16 i 29 oed.
- Mae bron i hanner o holl siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl a 21 y cant yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg. Yn 2004-06, dywedodd 58 y cant o siaradwyr Cymraeg eu bod yn rhugl a 21 y cant eu bod yn siarad cryn dipyn o Gymraeg.
- Mae crynodiad uchaf y siaradwyr Cymraeg rhugl yn ardaloedd awdurdodau lleol gorllewin Cymru gyda'r crynodiad uchaf yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.
- Fodd bynnag, yn yr ardaloedd hyn lle y ceir y crynodiad uchaf o siaradwyr Cymraeg y gwelwyd rhai o'r gostyngiadau mwyaf ers 2004-06 o ran y nifer sydd yn rhugl. Mae hyn yn adlewyrchu'r lleihad a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn ôl Cyfrifiad 2011.
- I'r gwrthwyneb gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl ers 2004-06 yng Nghaerdydd a Rhondda Cynon Taf, gyda 7,100 yn fwy o siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghaerdydd a 5,300 yn fwy yn Rhondda Cynon Taf.


5.2. Rhuglder yn Gymraeg

Gofynnwyd i oedolion a phobl ifanc tair oed a throsodd ddisgrifio orau eu gallu i siarad Cymraeg. Mae'r wybodaeth am ruglder yn ychwanegu at ein dealltwriaeth o allu'r boblogaeth i siarad Cymraeg, gan wahaniaethu rhwng lefelau gallu'r unigolion hynny i siarad Cymraeg.

Mae'n bosibl bod ymatebwyr wedi dehongli eu rhuglder yn y Gymraeg mewn amryw ffyrdd wrth ateb y cwestiwn hwn. Mae'n debygol bod nifer o ffactorau wedi effeithio ar eu hatebion, gan gynnwys hyder a thuedd i gymharu gallu ieithyddol personol â gallu ieithyddol siaradwyr Cymraeg eraill o'u cwmpas. Mae'n bosibl bod dau berson â'r un gallu i siarad Cymraeg wedi ateb y cwestiwn hwn yn wahanol. Mae hon yn agwedd gyffredin ar astudiaethau ymchwil o'r fath sydd yn gofyn i unigolion ddehongli eu rhuglder eu hunain.

Er mwyn darparu'r wybodaeth gyd-destunol ar gyfer gweddill yr adroddiad, mae'r ffigur isod yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiwn ar ruglder fel canran o'r boblogaeth gyfan.

Ffigur 4: Canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl rhuglder




Roedd 11 y cant o bob person tair oed a throsodd sydd yn byw yng Nghymru yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl. Roedd hyn yn cynrychioli oddeutu 318,800 o bobl. Roedd 12 y cant o'r boblogaeth yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl.

Mae canran a nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn rhugl wedi aros yn weddol gyson ers 2004-06. Roedd 12 y cant o bob person tair oed a throsodd, neu 317,300 o bobl, yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn 2004-06.

Mae'r ffigur isod yn dangos sut yr oedd gallu'r boblogaeth i siarad Cymraeg yn amrywio yn ôl oedran.

Ffigur 5: Canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl rhuglder ac oedran




Roedd canran y boblogaeth sydd yn rhugl yn Gymraeg yn tueddu i ostwng gydag oedran, o 15 y cant o'r grŵp oedran 3 i 15 oed i 9 y cant o'r grŵp oedran 45 i 64 oed. Roedd canran y boblogaeth 65 oed a throsodd sydd yn rhugl ychydig yn uwch na'r canrannau ar gyfer y rhai 30 i 44 oed a'r rhai 45 i 64 oed. Roedd y ganran sydd yn gallu siarad Cymraeg ond ddim yn rhugl uchaf hefyd ar gyfer y rhai 3 i 15 oed, gyda'r ganran o leiaf ddwywaith yn uwch nag yn unrhyw un o'r grwpiau oedran eraill.

Mae un mater penodol i'w ystyried wrth ddadansoddi rhuglder plant ifanc iawn. Mae'n bosibl y bydd rhai rhieni wedi ateb nad oedd eu plant yn rhugl ar y sail nad oedd eu gallu i siarad unrhyw iaith wedi datblygu'n llawn ar y pryd, ac ar sail hynny wedi nodi diffyg rhuglder yn y Gymraeg. Mae'n bosibl bod eraill, fodd bynnag, wedi nodi bod eu plant yn gwbl rhugl gan dderbyn y cyfyngiadau ar eu gallu ieithyddol o ystyried eu hoedran. Nid yw'r mater yn un penodol i'r Gymraeg yn unig. Mae'n debygol bod y tueddiadau hyn fwyaf perthnasol i'r plant ieuengaf o fewn y grŵp 3 i 15 oed.

Mae'r ffigur isod yn cymharu canrannau'r boblogaeth sydd yn rhugl a'r rhai nad ydynt yn rhugl â chanrannau arolygon 2004-06 yn ôl oedran. Mae'r rhai nad ydynt yn rhugl yn cynnwys y siaradwyr Cymraeg a ddywedodd eu bod yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg, y rhai sydd yn gallu siarad ychydig o Gymraeg a'r rhai sydd yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig.

Ffigur 6: Canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl rhuglder, oedran ac arolwg




Tra bo canran y boblogaeth sydd yn rhugl wedi aros yn weddol gyson rhwng y ddau arolwg ymhob grŵp oedran, mae canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg, ond ddim yn rhugl, wedi codi rhwng y ddau arolwg ar gyfer pob grŵp oedran, o 9 y cant o'r boblogaeth yn 2004-06 i 12 y cant o'r boblogaeth yn 2013-15. Gwelwyd y cynnydd mwyaf o blith y rhai 3 i 15 oed, a gynyddodd o 18 y cant yn 2004-06 i 26 y cant yn 2013-15.

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi aros yn weddol gyson rhwng y ddau arolwg, gan godi o bron 1,600. Fodd bynnag, mae nifer y siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl wedi cynyddu'n sylweddol rhwng y ddau arolwg, gan godi o bron 130,700.

Mae gweddill yr adran hon yn dadansoddi nodweddion y rhai a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r ffigur isod yn dangos lefelau rhuglder siaradwyr Cymraeg yn unig.

Ffigur 7: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl rhuglder



Roedd 47 y cant o siaradwyr Cymraeg yn ystyried eu hunain yn rhugl yn Gymraeg, tra bo 21 y cant yn gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg.

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn ystyried eu hunain yn rhugl yn Gymraeg yn cynyddu yn ôl oedran. Roedd canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl isaf ymysg y grŵp oedran 3 i 15 oed, gyda 36 y cant ohonynt yn nodi eu bod yn rhugl. Roedd mwy o siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn y rhugl yn y grŵp oedran hwn nag yn unrhyw grŵp oedran arall. Roedd canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl uchaf ymysg y grŵp oedran 65 oed a throsodd, gyda thri o bob pump ohonynt yn rhugl.


Tabl 1: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl rhuglder ac oedran

	Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n rhugl
3-15	36
16-29	47
30-44	49
45-64	49
65+	60
Pawb (3+)	47

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig yn uwch ymysg y grŵp oedran 3 i 15 oed nag yn unrhyw grŵp oedran arall, gyda 13 y cant ohonynt yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig.

Mae'r ffigur isod yn dangos sut mae niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl wedi newid ers 2004-06 yn ôl oedran.

Ffigur 8: Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl yn ôl oedran ac arolwg




Mae'r ffigur yn dangos bod canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl wedi gostwng rhwng y ddau arolwg ymhob grŵp oedran. Bu gostyngiad yng nghanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl o 58 y cant yn 2004-06 i 47 y cant yn 2013-15. Mae'r gostyngiad wedi bod yn weddol gyson ymysg yr holl grwpiau oedran, sef rhwng 9 a 14 pwynt canran.

Fodd bynnag, wrth edrych ar niferoedd y siaradwyr Cymraeg rhugl ymhob grŵp oedran yn 2004-06 a 2013-15, gwelwyd patrwm ychydig yn wahanol. Er i'r canrannau ostwng ymysg y boblogaeth gyfan, gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn y grwpiau oedran 16 i 29 oed a 30 i 44 oed.

Roedd rhuglder hefyd yn amrywio yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae'r map isod yn dangos canrannau'r siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl yn ôl ardal awdurdod lleol.

Ffigur 9: Canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl yn ôl ardal awdurdod lleol



Yn yr ardaloedd awdurdod lleol lle mae canrannau uchaf y siaradwyr Cymraeg y mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg rhugl hefyd, sef yng ngorllewin Cymru. Roedd canran

y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl uchaf yng Ngwynedd, gyda bron i bedwar ymhob pum siaradwr Cymraeg yn rhugl.

Roedd canrannau isaf y siaradwyr Cymraeg rhugl yn yr ardaloedd awdurdod lleol sydd â chanran isaf y siaradwyr Cymraeg, sef yn ne-ddwyrain Cymru. Roedd canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl isaf yng Nghasnewydd, gyda llai nag un ymhob deg siaradwr Cymraeg yn rhugl.

Mae cyswllt rhwng nifer y siaradwyr Cymraeg mewn ardal awdurdod lleol a nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl yn yr ardal honno. Yr ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg sydd â'r crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg rhugl hefyd. Mae'n bosibl bod hyn oherwydd bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n aml yn yr ardaloedd hynny, a hynny yn ei dro yn cynnig cyfleoedd i bobl gynnal neu ddatblygu rhuglder yn y Gymraeg.

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg a ddywedodd eu bod yn gallu dweud ychydig eiriau yn unig uchaf yn ne-ddwyrain Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl a'r rhai sydd ddim yn rhugl wedi newid ers 2004-06 yn ôl ardal awdurdod lleol.

Tabl 2: Siaradwyr Cymraeg yn ôl rhuglder ac ardal awdurdod lleol, 2004-06 a 2013-15

	Rhugl			Ddim yn rhugl		
	2004-06	2013-15	Gwahaniaeth	2004-06	2013-15	Gwahaniaeth
Ynys Môn	28,600	26,000	-2,600	7,700	12,000	4,300
Gwynedd	69,200	67,100	-2,100	13,800	19,400	5,600
Conwy	19,400	17,200	-2,100	13,800	18,300	4,500
Sir Ddinbych	14,100	12,200	-2,000	11,600	16,400	4,800
Sir y Fflint	4,900	6,700	1,800	14,500	20,200	5,700
Wrecsam	6,600	6,000	-600	10,800	21,400	10,500
Powys	10,400	12,600	2,300	15,100	17,100	2,000
Ceredigion	26,600	26,000	-600	11,100	13,400	2,300
Sir Benfro	11,000	9,600	-1,400	11,700	13,200	1,600
Sir Gaerfyrddin	53,600	51,600	-2,000	21,200	29,100	7,800
Abertawe	11,800	12,000	200	11,600	28,800	17,200
Castell-nedd Port Talbot	11,800	9,300	-2,500	8,000	13,100	5,200
Pen-y-bont ar Ogwr	5,500	5,400	-100	5,800	12,000	6,300
Bro Morgannwg	5,000	4,400	-700	5,000	9,800	4,800
Caerdydd	14,800	21,800	7,100	17,300	34,000	16,700
Rhondda Cynon Taf	11,200	16,600	5,300	12,500	21,300	8,700
Merthyr Tudful	2,000	1,500	-600	1,900	4,600	2,800
Caerffili	5,900	6,800	1,000	5,800	14,600	8,900
Blaenau Gwent	900	900	100	5,200	5,600	400
Torfaen	1,600	2,400	800	5,700	8,000	2,300
Sir Fynwy	1,100	1,500	400	7,300	10,600	3,400
Casnewydd	1,300	1,300	0	8,200	13,300	5,100
Cymru	317,300	318,800	1,600	225,600	356,300	130,700

Mae nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng mewn dros hanner o'r ardaloedd awdurdod lleol (12 allan o 22 ardal). Gwelwyd y gostyngiadau mwyaf mewn sawl ardal awdurdod lleol lle y mae'r canrannau uchaf o siaradwyr Cymraeg – roedd 2,600 yn llai o siaradwyr Cymraeg rhugl yn Ynys Môn yn 2013-15 nag oedd yn 2004-06. Gwelwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl mewn sawl ardal awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru, gyda'r cynnydd mwyaf yng Nghaerdydd – roedd 7,100 yn fwy o siaradwyr Cymraeg rhugl yng Nghaerdydd yn 2013-15 nag yn 2004-06. Mae hyn yn debyg i'r tueddiadau a welwyd yn y newid yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg yng Nghyfrifiad 2011.

Bu cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl ymhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf yng Nghaerffili, Abertawe a Merthyr Tudful ble roedd dros ddwywaith gymaint o siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl yn 2013-15 o'i gymharu â 2004-06.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl wedi gostwng ymhob ardal awdurdod lleol heblaw ym Mhowys, Torfaen a Blaenau Gwent. Bu cynnydd bychan o rhwng 0 a 2 pwynt canran yn yr ardaloedd hyn.

Bu'r gostyngiad mwyaf yng nghanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl yn ardaloedd awdurdodau lleol canol de Cymru, gyda gostyngiad o 20 pwynt canran neu fwy ym Merthyr Tudful, Abertawe a Bro Morgannwg.

Yn rhai o'r ardaloedd awdurdod lleol a welodd ostyngiad yng **nghanran** y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl, gwelwyd cynnydd yn **nifer** y siaradwyr Cymraeg rhugl. Yn yr ardaloedd awdurdod lleol hyn bu mwy o gynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl na'r rhai rhugl. Mae hyn yn esbonio pam y mae canran y siaradwyr Cymraeg rhugl wedi gostwng.

6. Pa mor dda y gall siaradwyr Cymraeg ysgrifennu Cymraeg?

6.1. Prif ganfyddiadau

Mae canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn dweud eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn wedi gostwng ychydig ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06, o 67 y cant i 57 y cant.

- Mae cyswllt rhwng gallu siaradwyr Cymraeg i ysgrifennu yn Gymraeg a'u rhuglder ar lafar. Dywed 89 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn.
- Mae siaradwyr Cymraeg rhugl 16 i 29 oed yn fwy tebygol na siaradwyr rhugl hŷn o ddweud eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda.

6.2. Y gallu i ysgrifennu Cymraeg

Gofynnwyd un cwestiwn a oedd yn ymwneud â gallu ysgrifennu siaradwyr Cymraeg. Roedd y cwestiwn yn benodol ar gyfer oedolion.

Wrth ddadansoddi'r wybodaeth hon, rhaid cofio mai adrodd ar eu gallu i ysgrifennu Cymraeg eu hunain a wnâi'r ymatebwyr, ac mae elfen o oddrychedd ynghylch eu hatebion, yn yr un modd ag y mae elfen o oddrychedd wrth adrodd ar eu gallu i siarad Cymraeg.

Yn Arolygon Defnydd Iaith 2004-06, nododd 67 y cant o oedolion oedd yn siarad Cymraeg eu bod yn gallu ysgrifennu yn y Gymraeg yn dda neu'n dda iawn. Mae'r ganran wedi gostwng ychydig erbyn 2013-2015, gyda 57 y cant yn dweud eu bod yn gallu ysgrifennu yn y Gymraeg yn dda neu'n dda iawn.

Mae cyswllt amlwg rhwng lefelau rhuglder unigolion a'u gallu i ysgrifennu Cymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl lawer yn fwy tebygol o nodi gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda na'r rhai sydd ddim yn rhugl.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn gallu ysgrifennu'n dda neu'n dda iawn wedi aros yn gyson dros y blynyddoedd. Roedd 88 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn dweud eu bod yn ysgrifennu'n dda neu'n dda iawn yn 2004-06 o'i gymharu â 89 y cant yn 2013-


2015. Bron i chwarter yr ymatebwyr nad oeddent yn rhugl oedd wedi nodi eu gallu i ysgrifennu yn dda neu'n dda iawn.

Roedd ychydig yn fwy o siaradwyr Cymraeg rhugl 16 i 29 oed wedi nodi eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn o'i gymharu â siaradwyr Cymraeg hŷn. Roedd bron i ddau draean yn y grŵp ieuengaf wedi nodi eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn, o'i gymharu â llai na hanner o bobl 45 i 64 oed.

Nid yw'n gwbl eglur beth yw'r rhesymau dros hyn; un esboniad posibl yw cynnydd mewn darpariaeth addysg Gymraeg a dysgu ffurfiol dros y blynyddoedd. Mae'n bosibl bod diffyg cyfleoedd yn y gorffennol i ddefnyddio eu gallu i ysgrifennu Cymraeg, er enghraifft wrth ddefnyddio gwasanaethau, wedi cael effaith ar allu ysgrifennu siaradwyr Cymraeg rhugl hŷn ond nid oes tystiolaeth i ategu'r dybiaeth hon.

Mae'r ffigur isod yn dangos y gwahaniaeth yng ngallu siaradwyr Cymraeg i ysgrifennu Cymraeg, yn ôl rhuglder ac oedran.

Ffigur 10: Disgrifiad siaradwyr Cymraeg o'u gallu i ysgrifennu yn Gymraeg yn ôl eu rhuglder a'u hoedran



Roedd ychydig dros dri chwarter, neu 77 y cant, o oedolion oedd wedi dysgu Cymraeg gartref pan oeddent yn blant yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda neu'n dda iawn. Roedd canran debyg o oedolion oedd wedi dysgu Cymraeg yn yr ysgol feithrin hefyd yn nodi eu bod yn gallu ysgrifennu'n dda neu'n dda iawn, sef 81 y cant. Roedd yr oedolion hynny oedd wedi dysgu Cymraeg yn hwyrach yn eu bywydau, er enghraifft yn yr ysgol gynradd neu uwchradd, yn y brifysgol neu drwy gwrs i oedolion, yn llawer llai tebygol o nodi eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg da neu dda iawn.

Yng Ngwynedd oedd y ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg a nododd eu bod yn gallu ysgrifennu'n dda neu'n dda iawn, gyda bron i bedwar ymhob pump yn nodi hynny. Roedd y ganran isaf yn Sir Fynwy, gydag ychydig dros un ymhob pump yn nodi hynny.

7. Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith?

7.1. Prif ganfyddiadau

Nid yw canran y boblogaeth yng Nghymru sydd yn siarad Cymraeg bob dydd wedi newid ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 ac mae cyswllt clir rhwng rhuglder ac amllder defnydd y Gymraeg.


- Mae 13 y cant o bobl tair oed a throsodd yn siarad Cymraeg bob dydd; 13 y cant oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn ôl Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 hefyd.
- Mae ychydig dros hanner y siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd; mae bron i un ymhob pump yn siarad Cymraeg bob wythnos.
- Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad yr iaith yn fwy aml na'r rheini nad ydynt yn rhugl. Mae 84 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.
- Mae crynodiad uchaf y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd yn ardaloedd awdurdodau lleol yng ngorllewin Cymru, gyda'r crynodiad ar ei uchaf yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Yn yr ardaloedd hyn y ceir y crynodiadau uchaf o siaradwyr Cymraeg felly mae'n debyg bod yr ardaloedd hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn aml.
- Yn yr ardaloedd hyn lle mae'r crynodiad uchaf o siaradwyr Cymraeg y gwelwyd y gostyngiad mwyaf ers 2004-06 o ran y nifer sydd yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae hyn yn adlewyrchu'r lleihad a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardaloedd hyn yn ôl Cyfrifiad 2011.
- Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl sydd yn siarad Cymraeg bob dydd yn ne-ddwyrain Cymru, ac yn enwedig yng Nghaerdydd.

7.2. Amllder siarad Cymraeg

Gofynnwyd i oedolion a phobl ifanc pa mor aml y maent yn siarad Cymraeg. Ynghyd â gwybodaeth am allu pobl i siarad Cymraeg, mae gwybodaeth am ba mor aml maent yn ei siarad yn cyfrannu at y darlun o hyfywedd yr iaith.

Er mwyn darparu'r wybodaeth gyd-destunol ar gyfer gweddill yr adroddiad, mae'r ffigur isod yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiwn ar amllder siarad Cymraeg fel canran o'r boblogaeth gyfan.

Ffigur 11: Pa mor aml y mae'r boblogaeth yn siarad Cymraeg




Roedd 13 y cant o bob person tair oed a throsodd sydd yn byw yng Nghymru yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae hyn yn cynrychioli oddeutu 360,900 o bobl. Dyma union yr un ganran ag yn 2004-06, pan oedd oddeutu 342,300 o bobl yn siarad Cymraeg bob dydd. Er i'r ganran aros yn gyson ers 2004-06, gwelwyd cynnydd o 18,600 yn nifer y bobl sydd yn siarad Cymraeg bob dydd.

Roedd y ganran sydd yn siarad Cymraeg bob dydd ychydig yn uwch na'r ganran sydd yn rhugl. Mae hyn yn golygu bod rhai siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg bob dydd er nad oeddent yn rhugl. O'r rhai hynny oedd yn siarad Cymraeg bob dydd, roedd ychydig o dan dri chwarter ohonynt yn rhugl.

Mae'r ffigur isod yn dangos sut yr oedd amllder siarad Cymraeg y boblogaeth yn amrywio yn ôl oedran.

Ffigur 12: Canran y boblogaeth sydd yn siarad Cymraeg yn ôl amllder ac oedran




Roedd canran y boblogaeth a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn weddol gyson ar hyd y grwpiau oedran, ar wahân i'r rhai 3 i 15 oed. Roedd y ganran o'r rhai 3 i 15 oed a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd dipyn yn uwch nag unrhyw grŵp oedran arall, gyda bron i chwarter ohonynt yn siarad Cymraeg bob dydd. Mae canran y plant a phobl ifanc 3 i 15 oed a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn debyg i ganran y disgyblion a oedd yn derbyn eu haddysg mewn ysgolion cynradd, canol ac uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog, ond nid ydym yn gwybod ai'r un plant a phobl ifanc ydyn nhw ai peidio (tua 22 y cant o ddisgyblion yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion, Llywodraeth Cymru 2015a).

Mae gweddill yr adran hon ar amllder siarad Cymraeg, a gweddill yr adroddiad, yn dadansoddi nodweddion y bobl hynny sydd wedi dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Mae'r ffigur isod yn dangos pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith.

Ffigur 13: Pa mor aml y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg




Roedd dros hanner y siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd, a bron un ymhob pump yn siarad yr iaith bob wythnos. Nid oedd ychydig dros un ymhob ugain siaradwr Cymraeg byth yn siarad yr iaith.

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch pa mor aml yr oedd yr ymatebwyr yn siarad Cymraeg fel rhan o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015. Dywedodd 57 y cant eu bod yn siarad Cymraeg bob dydd, 16 y cant eu bod yn siarad Cymraeg bob wythnos, 22 y cant eu bod yn siarad Cymraeg yn llai aml na phob wythnos a 5 y cant nad oeddent byth yn siarad Cymraeg. Mae canfyddiadau'r ddau arolwg yn debyg iawn ac mae hyn yn awgrymu bod yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn fesur defnyddiol i ddadansoddi tueddiadau tymor byr.

Mae'r ffigur isod yn dangos bod amlder siarad Cymraeg yn amrywio yn ôl oedran.

Ffigur 14: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl amlder siarad Cymraeg ac oedran




Roedd canran y siaradwyr Cymraeg a oedd yn siarad yr iaith bob dydd yn weddol gyson rhwng y grwpiau oedran gan amrywio rhwng 53 a 59 y cant, ac eithrio'r rhai 16 i 29 mlwydd oed. 39 y cant o'r rhai 16 i 29 mlwydd oed oedd yn siarad Cymraeg bob dydd. Nid yw'n hysbys pam y mae amlder o ran y defnydd o'r Gymraeg yn wahanol ymysg y grŵp 16 i 29 oed o'i gymharu â defnydd grwpiau oedran eraill. Un rheswm posibl yw bod hwn yn oedran â newid mawr ym mywydau unigolion, ble mae pobl ifanc yn symud i ffwrdd i fyw oddi cartref ac yn dechrau ym myd gwaith ac felly yn symud mewn cylchoedd cymdeithasol gwahanol ac efallai mwy cymysg fel yn y brifysgol neu yn y gweithle.

Roedd 59 y cant o siaradwyr Cymraeg 3 i 15 oed yn siarad Cymraeg bob dydd er mai dim ond 36 y cant ohonynt oedd yn rhugl. Mae hyn, mae'n debyg, yn adlewyrchu'r ffaith eu bod yn defnyddio'r iaith yn rheolaidd yn yr ysgol.

O ran y grwpiau oedran eraill, roedd canrannau'r siaradwyr Cymraeg a oedd yn siarad yr iaith bob dydd yn llawer agosach at y canrannau sydd yn gallu siarad yr iaith yn rhugl (o fewn wyth pwynt canran).

Mae'r ffigur isod yn dangos sut y mae niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd wedi newid ers 2004-06 yn ôl oedran.

Ffigur 15: Nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd yn ôl oedran ac arolwg




Tra bo canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd wedi gostwng ers 2004-06, mae'r nifer wedi cynyddu oddeutu 18,600. Nid yw'r duedd hon i'w gweld ymhob grŵp oedran.

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd wedi gostwng ymhob grŵp oedran, gan ostwng rhwng 6 ac 11 pwynt canran ymhob grŵp. Fodd bynnag, mae nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd wedi codi ar gyfer y grwpiau oedran hyd at 44 oed, ac wedi gostwng ar gyfer y grwpiau oedran 45 oed a throsodd. Mae hyn yn gysylltiedig â'r ffaith bod llai o siaradwyr Cymraeg yn y grwpiau oedran hŷn bellach yn rhugl.

Mae siaradwyr Cymraeg rhugl dros deirgwaith yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob dydd na siaradwyr sydd ddim yn rhugl, gyda 84 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad yr iaith bob dydd o'i gymharu â 26 y cant o siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl. Mae hyn yn weddol debyg i 2004-06 pan oedd 87 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad yr iaith bob dydd, a 29 y cant o siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl yn siarad yr iaith bob dydd. Roedd dros 80 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl o bob grŵp oedran yn siarad Cymraeg bob dydd, ac eithrio'r grŵp 16 i 29 oed, lle'r oedd 68 y cant ohonynt yn siarad Cymraeg bob dydd.

Mae'r ffigur isod yn dangos amlder siarad Cymraeg o fewn ardaloedd awdurdod lleol, mewn trefn ddisgynnol.

Ffigur 16: Canran y siaradwyr Cymraeg yn ôl amlder siarad yr iaith ac ardal awdurdod lleol



Roedd mwyafrif y siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd o fewn yr ardaloedd hynny lle y mae canrannau uchaf y siaradwyr Cymraeg, sef yng ngorllewin Cymru. Mae'n bosibl bod dwyster siaradwyr Cymraeg o fewn yr ardaloedd hynny yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn aml. Er enghraifft, roedd 85 y cant o siaradwyr Cymraeg Gwynedd yn siarad yr iaith bob dydd. Wrth edrych ar ddata eraill o'r Arolwg gwelir bod mwy o bobl yn

yr ardaloedd hynny'n defnyddio'r Gymraeg gyda'u ffrindiau, eu teulu, yn y gweithle ac wrth geisio defnyddio gwasanaethau.

Roedd canrannau is o siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd i'w gweld yn nwyrain Cymru, ac yn benodol yn ne-ddwyrain Cymru.

Mae'r tabl isod yn dangos sut y mae niferoedd a chanrannau siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd wedi newid ers Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

Tabl 3: Niferoedd a chanrannau pobl sydd yn siarad Cymraeg bob dydd yn ôl ardal awdurdod lleol ac arolwg

	Siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith bob dydd					
	2004-06		2013-15		Gwahaniaeth	
	Nifer	Canran	Nifer	Canran	Nifer	Pwynt canrannol
Ynys Môn	31,500	87	29,500	77	-2,000	-9
Gwynedd	75,300	90	73,200	85	-2,100	-6
Conwy	22,000	66	19,800	56	-2,200	-11
Sir Ddinbych	14,800	57	13,600	48	-1,100	-10
Sir y Fflint	6,900	35	8,700	32	1,800	-3
Wrecsam	6,800	39	8,200	30	1,300	-9
Powys	11,000	43	13,700	46	2,700	2
Ceredigion	30,500	81	28,800	73	-1,800	-8
Sir Benfro	11,900	52	11,000	48	-900	-4
Sir Gaerfyrddin	60,100	80	57,800	71	-2,300	-8
Abertawe	11,500	49	9,500	23	-2,000	-26
Castell-nedd Port Talbot	12,300	62	10,700	48	-1,600	-14
Pen-y-bont ar Ogwr	4,200	37	5,400	31	1,200	-7
Bro Morgannwg	5,000	50	5,800	41	800	-9
Caerdydd	14,300	44	26,900	48	12,600	4
Rhondda Cynon Taf	8,400	35	16,100	43	7,700	7
Merthyr Tudful	2,000	51	1,800	28	-200	-22
Caerffili	5,300	46	8,200	38	2,900	-8
Blaenau Gwent	1,800	29	2,100	32	300	3
Torfaen	2,500	34	3,500	34	1,100	0
Sir Fynwy	2,100	25	3,300	27	1,200	3
Casnewydd	2,100	22	3,300	23	1,200	1
Cymru	342,300	63	360,900	53	18,600	-9

Yn ne-ddwyrain Cymru y mae'r ychydig ardaloedd awdurdod lleol lle y bu cynnydd yng nghanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd. Dyma'r ardaloedd lle bu'r cynnydd mwyaf hefyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd.

Gwelwyd gostyngiad o 26 pwynt canran yng nghanran y siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd yn Abertawe, a gostyngiad o 22 pwynt canran ym Merthyr Tudful. Yn yr ardaloedd hyn y bu rhai o'r cynnydd canrannol mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl. Mae siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl yn llai tebygol na siaradwyr Cymraeg rhugl o siarad yr iaith bob dydd, sydd yn esbonio'r gostyngiad a welwyd. Bu'r gostyngiad mwyaf yn nifer y siaradwyr Cymraeg a oedd yn siarad yr iaith bob dydd yng ngorllewin Cymru. Bu gostyngiad o 1,800 neu fwy yn Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin.

8. Pa iaith y mae siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?

8.1. Prif ganfyddiadau

Mae mwyafrif y siaradwyr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio Saesneg, ond mae mwyafrif y siaradwyr Cymraeg rhugl yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg neu'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith.

- Mae un ymhob pum siaradwr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn codi i ychydig dros ddau ymhob pump ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl.
- Mae ychydig dros chwarter y siaradwyr Cymraeg yn teimlo'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith.
- Mae siaradwyr Cymraeg hŷn yn fwy tebygol na'r rhai ifanc o deimlo'n fwy cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg.
- Mae mwyafrif helaeth y siaradwyr Cymraeg sydd fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Cymraeg wedi dysgu Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc.


8.2. Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg fwyaf cartrefol yn ei defnyddio

Gofynnwyd i oedolion pa iaith y maent yn teimlo fwyaf cartrefol yn ei defnyddio. Gofynnwyd hyn fel ffordd o geisio canfod pa iaith yr oedd pobl yn ei ffafrio'n reddfodol. Mae'n debygol bod amryw ffactorau wedi effeithio ar yr atebion i'r cwestiwn hwn, gan gynnwys rhuglder, hyder a theimladau personol tuag at ieithoedd penodol. Nid yw rhuglder mewn iaith yn golygu o reidrwydd mai honno yw'r iaith y mae rhywun fwyaf cartrefol yn ei defnyddio.

Ni ofynnwyd y cwestiwn hwn yn Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 felly nid oes modd cymharu canlyniadau.

Mae'r ffigur isod yn dangos pa iaith y mae'r holl siaradwyr Cymraeg, a siaradwyr Cymraeg rhugl yn benodol, fwyaf cartrefol yn ei defnyddio.

Ffigur 17: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg fwyaf cartrefol yn ei defnyddio



Roedd ychydig dros un ymhob pum siaradwr Cymraeg yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, ychydig dros chwarter yn teimlo'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith a thros hanner y siaradwyr Cymraeg yn teimlo fwyaf cartrefol yn defnyddio Saesneg.

Roedd ychydig dros ddau ymhob pum siaradwr Cymraeg rhugl yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, dau ymhob pump yn teimlo'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith a'r gweddill yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio Saesneg (gyda chanran bychan iawn yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio iaith arall).

Roedd 90 y cant o'r siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio Saesneg, gyda 8 y cant yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith. Mae'r gweddill yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio Cymraeg neu iaith arall.

Mae'r tabl isod yn dangos canran y siaradwyr Cymraeg oedd fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith, yn ôl oedran.

Tabl 4: Canran y siaradwyr Cymraeg sydd fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith, yn ôl oedran

	Canran y siaradwyr Cymraeg sydd yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio:	
	Cymraeg	yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith
16-29	14	26
30-44	18	25
45-64	24	23
65+	30	31
Pawb (16+)	21	26

Yn debyg i'r duedd a welwyd o ran rhuglder, roedd y ganran sydd fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg yn cynyddu yn ôl oedran. Roedd siaradwyr Cymraeg 65 oed a throsodd dros ddwywaith yn fwy tebygol na siaradwyr Cymraeg 16 i 29 oed o ddweud eu bod yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg.

Roedd y ganran sydd yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith yn weddol debyg ar gyfer y grwpiau oedran ac eithrio'r rhai 65 oed a throsodd. Roedd y ganran yn gostwng ychydig yn ôl oedran ond ar ei uchaf ar gyfer y rhai 65 oed a throsodd.

Mae'r tabl isod yn cymharu canrannau'r siaradwyr Cymraeg rhugl â chanrannau'r siaradwyr Cymraeg sydd yn fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg, yn ôl oedran.

Tabl 5: Canrannau siaradwyr Cymraeg rhugl a chanrannau'r siaradwyr Cymraeg sydd fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg yn ôl oedran

	Canran y siaradwyr Cymraeg sydd: fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn yn rhugl defnyddio'r Gymraeg a Saesneg	
	yn rhugl	defnyddio'r Gymraeg a Saesneg
16-29	47	40
30-44	49	43
45-64	49	47
65+	60	61
Pawb (16+)	47	47

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg rhugl yn weddol debyg i'r ganran sydd fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg. Roedd y gwahaniaethau mwyaf i'w gweld ar gyfer y grwpiau oedran iau, gyda chanran uwch yn dweud eu bod yn rhugl o'i gymharu â'r ganran a ddywedodd eu bod fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg.

O'r rhai oedd yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, roedd bron pob un yn siarad yr iaith bob dydd. O'r rhai oedd yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith, roedd bron i dri chwarter yn siarad yr iaith bob dydd. Roedd ychydig dros un ymhob pump o'r rhai sydd yn teimlo'n fwyaf cartrefol yn defnyddio Saesneg yn siarad Cymraeg bob dydd.

O'r siaradwyr Cymraeg oedd yn dweud eu bod fwyaf cartrefol yn defnyddio'r Gymraeg, neu'r un mor gartrefol yn defnyddio'r Gymraeg a Saesneg, dysgodd 83 y cant ohonynt i siarad Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc.

9. Ble y dysgodd siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith?

9.1. Prif ganfyddiadau

Mae siaradwyr Cymraeg ifanc yn fwy tebygol o fod wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol nag yn unrhyw le arall. Mae siaradwyr Cymraeg hŷn yn fwy tebygol o fod wedi dysgu siarad Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc nag yn unrhyw le arall.

- Mae 43 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu'r Gymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc, 11 y cant yn yr ysgol feithrin, 25 y cant yn yr ysgol gynradd a 15 y cant yn yr ysgol uwchradd.
- Mae canran y siaradwyr Cymraeg a ddysgodd siarad Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc yn amrywio rhwng 21 y cant o bobl ifanc 3 i 15 oed i 79 y cant o bobl 65 oed a throsodd.
- Mae'r ganran a oedd wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol hefyd yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran felly, o 79 y cant o bobl ifanc rhwng 3 a 15 mlwydd oed i 13 y cant o bobl 65 oed a throsodd. Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw'r newid sylweddol yn y sector addysg Gymraeg dros yr hanner can mlynedd diwethaf, gyda chynnydd yn nifer y disgyblion sydd yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn nifer yr ysgolion Cymraeg eu hiaith sydd wedi eu hagor ledled Cymru.
- Mae siaradwyr Cymraeg a ddysgodd y Gymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc yn fwy tebygol o fod yn rhugl na'r rhai a ddysgodd siarad yr iaith yn yr ysgol.


9.2. Ble y bu i siaradwyr Cymraeg ddysgu'r iaith

Gofynnwyd i oedolion a phobl ifanc ynghylch ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg.

Un o amcanion strategol Llywodraeth Cymru yw annog a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd. Un o nodau'r Llywodraeth wrth geisio cyflawni hynny yw annog rhieni a gofalwyr sydd yn siarad Cymraeg i drosglwyddo'r iaith i'w plant. Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer cynllunio a chyflenwi darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ymhob cyfnod addysg a hyfforddiant.

Mae'r ffigur isod yn dangos ble yn bennaf y bu i siaradwyr Cymraeg ddysgu siarad Cymraeg yn ôl oedran.

Ffigur 18: Ble yn bennaf y bu i siaradwyr Cymraeg ddysgu'r iaith yn ôl oedran



Mae'r ffigur uchod yn dangos data ar gyfer y siaradwyr Cymraeg a ddysgodd siarad Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc, mewn ysgol neu rywle arall (gan gynnwys cwrs Cymraeg i Oedolion). Roedd canran fechan o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad yr iaith mewn coleg neu brifysgol. Mae'r rhain wedi eu cynnwys ymhlith y rhai sydd wedi dysgu Cymraeg mewn 'Rhywle arall' yn y ffigur uchod.

Mae'n bwysig nodi nad yw'n bosibl gwybod o'r data sawl person sydd wedi parhau i ddysgu'r Gymraeg o'r ysgol feithrin i'r ysgol gynradd ac uwchradd. Gofynnodd y cwestiwn ble yn bennaf y dysgodd yr ymatebwyr i siarad Cymraeg.

Roedd ychydig dros hanner y siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg yn yr ysgol. Bu i 43 y cant o siaradwyr Cymraeg ddysgu siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc, 11 y cant yn yr ysgol feithrin, 25 y cant yn yr ysgol gynradd a 15 y cant yn yr ysgol uwchradd.


Fodd bynnag, roedd amrywiaeth sylweddol o ran ble y dysgodd siaradwyr Cymraeg i siarad yr iaith yn ôl oedran, gyda'r rhai 3 i 15 oed yn llawer llai tebygol na'r rhai 65 oed a throsodd o fod wedi dysgu siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc. Ychydig dros un ymhob pum siaradwr Cymraeg 3 i 15 oed oedd wedi dysgu siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc, o'i gymharu â bron i bedwar ymhob pum siaradwr Cymraeg 65 oed a throsodd.

Mae'n debyg mai'r rheswm am hyn yw'r newid sylweddol yn y sector addysg Gymraeg dros yr hanner can mlynedd diwethaf, gyda chynnydd yn nifer y disgyblion sydd yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn nifer yr ysgolion Cymraeg eu hiaith sydd wedi eu hagor ledled Cymru.

Mae canran y siaradwyr Cymraeg sydd wedi dysgu siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc wedi gostwng ers 2004-06 - bryd hynny nododd 53 y cant o siaradwyr Cymraeg eu bod wedi dysgu siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc.

Mae'r ffigur isod yn dangos canran y siaradwyr sydd yn rhugl ai peidio yn ôl ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg.

Ffigur 19: Rhuglder siaradwyr Cymraeg yn ôl ble y bu iddynt ddysgu siarad Cymraeg



Mae dadansoddiad pellach ar gael o gyfrwng addysgu plant a phobl ifanc mewn gwahanol bynciau yn adran 11.4.

Mae'r siaradwyr Cymraeg a ddysgodd siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc yn fwy tebygol o fod yn rhugl na'r rhai a ddysgodd siarad yr iaith yn yr ysgol. O'r siaradwyr Cymraeg a ddysgodd siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc, roedd dros bedwar ymhob pump ohonynt yn rhugl.

10. Iaith y cartref yn ystod plentyndod

10.1. Prif ganfyddiadau

Mae gan ychydig o dan hanner o'r holl siaradwyr Cymraeg o leiaf un rhiant sydd, neu oedd, yn rhugl.

- Mae siaradwyr Cymraeg sydd ag o leiaf un rhiant rhugl dros ddwywaith yn fwy tebygol na'r siaradwyr Cymraeg heb yr un rhiant rhugl o siarad Cymraeg bob dydd
- Mae 40 y cant o'r rhai nad oedd ganddynt yr un rhiant rhugl wedi dysgu siarad Cymraeg yn bennaf yn yr ysgol gynradd, tra bo 25 y cant wedi dysgu yn yr ysgol uwchradd.

10.2. Gallu rhieni yn y Gymraeg

Mae trosglwyddo iaith o'r naill genhedlaeth i'r llall yn allweddol ym maes cynllunio ieithyddol (Llywodraeth Cymru 2012a). Mae'n galluogi ac annog plant a phobl ifanc i gaffael yr iaith. Nodwyd eisoes yn adran 9.2 bod 43 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi dysgu siarad Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc.

Mae Cyfrifiad 2011 yn darparu gwybodaeth am allu yn y Gymraeg ymysg plant 3 i 4 mlwydd oed yn ôl sgiliau Cymraeg eu rhieni. At ddibenion y Cyfrifiad, gelwir hyn yn drosglwyddiad iaith. Gan ddefnyddio data'r Cyfrifiad, cyfeirir at drosglwyddo'r iaith Gymraeg fel y gyfradd o blant 3 i 4 mlwydd oed o fewn gwahanol fathau o deuluoedd sydd yn gallu siarad Cymraeg. Mae data'r Cyfrifiad yn dangos bod cyswllt cryf rhwng y gallu i siarad Cymraeg yn yr oedrannau cynnar (h.y. 3 i 4 mlwydd oed) a gallu eu rhieni i siarad Cymraeg.


Gofynnwyd cwestiwn i oedolion ar allu Cymraeg eu rhieni pan oeddent yn blant, a chwestiwn tebyg i blant a phobl ifanc, ond ar allu cyfredol eu rhieni yn y Gymraeg. Yn ychwanegol at hyn, gofynnwyd cwestiwn pellach i blant a phobl ifanc ynghylch gallu Cymraeg unrhyw frodyr neu chwiorydd sydd ganddynt. Mae'r cwestiynau hyn yn darparu gwybodaeth am lefelau rhuglder ehangach yr aelwyd a'r berthynas rhwng hynny a lefelau rhuglder y plentyn ei hun.

Roedd gan 47 y cant o holl siaradwyr Cymraeg, beth bynnag yw eu lefelau rhuglder, o leiaf un rhiant sydd neu oedd yn rhugl yn Gymraeg. Nododd bron i chwarter nad oes un o'u rhieni yn gallu'r Gymraeg o gwbl.

Roedd gan 77 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl o leiaf un rhiant rhugl yn Gymraeg, tra bo 8 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn dod o gartref lle nad oedd yr un rhiant yn siarad Cymraeg o gwbl.

O ran siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl, nododd un o bob pump bod o leiaf un rhiant ar yr aelwyd yn rhugl yn y Gymraeg. Roedd canran sylweddol, 37 y cant, â rhywfaint o Gymraeg, yn dod o gartrefi heb un rhiant rhugl yn Gymraeg.

Ffigur 20: Canran siaradwyr Cymraeg rhugl a ddim yn rhugl ag o leiaf un rhiant rhugl yn y Gymraeg




Wrth edrych ar ddata'r Cyfrifiad, mewn cartrefi lle mae dau riant yn gallu siarad Cymraeg, arhosodd y gyfradd drosglwyddo yn gyson ar tua 82 y cant rhwng Cyfrifiadau 2001 a 2011. Golyga hyn, o fewn cartrefi gyda phlant 3 i 4 blwydd oed lle mae dau riant yn gallu siarad Cymraeg, bod tua 82 y cant o'r plant hefyd yn gallu siarad Cymraeg. Rhwng 2001 a 2011, cynyddodd y gyfradd drosglwyddo o fewn cartrefi ble gallai un rhiant siarad Cymraeg, o 40 y cant i 45 y cant.

Yn yr Arolwg Defnydd Iaith, o blith siaradwyr Cymraeg oedd ag o leiaf un rhiant rhugl yn yr iaith, roedd y mwyafrif helaeth, 82 y cant, wedi dysgu i siarad Cymraeg gartref. Pump y cant

a nododd eu bod wedi dysgu mewn ysgol feithrin, naw y cant mewn ysgol gynradd a thri y cant mewn ysgol uwchradd. O'r rhai nad oedd ganddynt yr un riant rhugl, roedd y ganran uchaf, 40 y cant, wedi dysgu i siarad Cymraeg yn bennaf yn yr ysgol gynradd, gyda 25 y cant wedi dysgu mewn ysgol uwchradd. Golyga hyn fod bron i ddau draean o bobl sydd yn dod o gartrefi heb yr un riant rhugl yn ddibynnol yn bennaf ar y system addysg i ddysgu'r iaith.


Ffigur 21: Ble dysgwyd siarad Cymraeg yn ôl a oes riant rhugl ganddynt



Roedd siaradwyr Cymraeg ddwywaith yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob dydd os oedd o leiaf un riant rhugl Cymraeg ganddynt, o'i gymharu â'r unigolion hynny nad oedd ganddynt riant rhugl, gyda thraean ohonyn nhw yn siarad Cymraeg bob dydd.

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg sydd ag o leiaf un riant rhugl yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran. Roedd 29 y cant o siaradwyr Cymraeg ifanc 3 i 15 mlwydd oed yn dweud bod ganddynt o leiaf un riant oedd yn rhugl yn Gymraeg, tra bo'r ganran yn 75 y cant ymysg siaradwyr Cymraeg 65 oed a throsodd. Roedd y patrwm yn debyg iawn o ran siaradwyr Cymraeg oedd â dau riant rhugl. 10 y cant o siaradwyr Cymraeg ifanc 3 i 15 mlwydd oed sy'n dod o gartrefi lle fo'r ddau riant yn rhugl, o gymharu â 57 y cant o siaradwyr Cymraeg 65 oed a throsodd.

Ffigur 22: Canran sydd ag o leiaf un rhiant yn rhugl yn y Gymraeg yn ôl oed



O ran y defnydd o'r Gymraeg gartref, roedd 43 y cant o'r rhai oedd ag o leiaf un rhiant rhugl Cymraeg gartref yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg bob amser neu bron bob amser gartref, 8 y cant yn siarad Cymraeg yn bennaf ac 16 y cant Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal. Nododd traean, 34 y cant, eu bod yn siarad Saesneg bob amser neu bron bob amser, neu Saesneg yn bennaf.

11. Iaith addysg

11.1. Prif ganfyddiadau

Mae pobl ifanc yn fwy tebygol na phobl hŷn o fod wedi derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf.

- Mae cyfran yr oedolion wnaeth fynychu ysgol feithrin, gynradd neu uwchradd ble mai'r Gymraeg yn unig neu'n bennaf oedd iaith eu haddysg yn uwch ymysg y grŵp dan 45 oed nag yn y grŵp 45 oed a throsodd. Mae angen cadw mewn cof fodd bynnag nad oedd addysg cyfrwng Cymraeg ar gael yn yr un modd ag y mae heddiw pan roedd y rhai 45 oed a throsodd yn yr ysgol.
- Mae cyfran lawer yn uwch o oedolion sydd yn siarad Cymraeg yn rhugl wedi derbyn eu haddysg feithrin, cynradd neu uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn rhugl.

11.2. Iaith addysg

Fel rhan o'r arolwg, gofynnwyd cwestiynau i oedolion a phobl ifanc ynghylch iaith eu haddysg. Ni chafodd yr un cwestiynau eu gofyn i'r ddau grŵp oedran. Roedd y cwestiynau i oedolion yn canolbwyntio ar iaith eu haddysg ymhob cam o'r system addysg, tra bo'r cwestiynau i bobl ifanc yn holi ym mha iaith yr addysgwyd pynciau penodol. Dim ond plant oedran uwchradd oedd yn ateb y cwestiynau hyn yn yr holiadur pobl ifanc.

Mae'r sector addysg Gymraeg wedi newid yn sylweddol dros yr hanner can mlynedd diwethaf a mwy, gyda chynnydd yn nifer y disgyblion sydd yn dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn nifer yr ysgolion Cymraeg eu hiaith sydd wedi eu hagor ledled Cymru. Mae Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn gosod cyfeiriad strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllunio a chyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mhob cyfnod addysg a hyfforddiant.

Mae'r newid hwn dros yr hanner can mlynedd diwethaf yn cynnig mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc heddiw o'i gymharu â chenedlaethau blaenorol i ddewis addysg cyfrwng

Cymraeg. Dengys canlyniadau'r adran flaenorol fod plant a phobl ifanc yn llawer mwy tebygol na phobl hŷn o fod wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol.

Mae'n bwysig cadw'r newid hwn mewn cof felly wrth ddadansoddi iaith addysg yn ôl oedran. Mae'n rhesymol disgwyl bod llai o bobl hŷn na'r rhai iau wedi derbyn eu haddysg yn Gymraeg. Wrth ddadansoddi iaith addysg yn ôl ardaloedd awdurdod lleol mae'n bwysig nodi hefyd bod argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg wedi amrywio dros amser yn yr ardaloedd hyn, gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn agor mewn gwahanol lefydd ac ar wahanol adegau.

Nid yw pob ardal awdurdod lleol yn cynnig addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Nid oes ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Sir Fynwy na Chasnewydd.³ Fodd bynnag nid yw hyn yn golygu o reidwydd nad yw hi'n bosibl i blant a phobl ifanc yn yr ardaloedd hyn dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'n bosibl bod plant a phobl ifanc o'r ardaloedd hyn yn teithio ymhellach i ardal awdurdod lleol gyfagos i dderbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

11.3. Iaith addysg oedolion

Derbyniodd bron i hanner y siaradwyr Cymraeg addysg feithrin a chynradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf o'i gymharu â thraean a dderbyniodd addysg uwchradd yn y Gymraeg.

Mae dangosyddion allbwn yr adroddiadau blynyddol ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn dangos bod llai o ddisgyblion yn yr ysgol uwchradd nag yn yr ysgol gynradd yn cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf ar hyn o bryd. Yn 2015, cafodd 22.2 y cant o ddisgyblion 7 oed eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf o'i gymharu â 17.8 y cant o ddisgyblion 14 oed.

Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r siaradwyr Cymraeg a dderbyniodd eu haddysg feithrin, cynradd neu uwchradd yn y Gymraeg yn unig neu'n bennaf.

³ Caiff darpariaeth cyfrwng Cymraeg ysgolion ei diffinio yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg*.

Tabl 6: Canran y siaradwyr Cymraeg a gafodd eu haddysg feithrin, cynradd neu uwchradd yn Gymraeg yn unig neu'n bennaf

	Cymraeg yn unig neu'n bennaf
laith addysg ysgol feithrin	45
laith addysg ysgol gynradd	48
laith addysg ysgol uwchradd	33

Ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl, roedd bron i bedwar o bob pump wedi derbyn addysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, tra bo un ymhob deg wedi derbyn addysg feithrin yn Saesneg yn unig neu'n bennaf. O'r rhai hynny sydd ddim yn rhugl, 16 y cant a ddywedodd mai Cymraeg oedd iaith eu haddysg feithrin.

Yn debyg i ganran y siaradwyr Cymraeg rhugl a oedd wedi derbyn eu haddysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, derbyniodd 78 y cant eu haddysg gynradd yn y Gymraeg yn unig neu'n bennaf. 9 y cant a dderbyniodd eu haddysg gynradd yn Saesneg yn unig neu'n bennaf.


Roedd y gwahaniaethau mwyaf i'w gweld wrth ddadansoddi iaith addysg uwchradd oedolion rhugl. Ychydig dros hanner o siaradwyr Cymraeg rhugl oedd wedi derbyn eu haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, gyda bron i chwarter wedi derbyn addysg uwchradd Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal. Roedd bron i un o bob pump o siaradwyr Cymraeg rhugl wedi derbyn eu haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Saesneg. 9 y cant o siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl a dderbyniodd eu haddysg uwchradd yn Gymraeg yn unig neu'n bennaf a derbyniodd dros dri chwarter eu haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Saesneg yn unig neu'n bennaf.

O'r holl siaradwyr Cymraeg a dderbyniodd addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, roedd 86 y cant yn disgrifio eu hunain yn rhugl, sydd ychydig yn is nag yn 2004-06 lle'r oedd 91 y cant ymhlith y grŵp yma wedi disgrifio eu hunain yn siaradwyr rhugl.

Mae cyswllt amlwg rhwng oedran a nifer y bobl a dderbyniodd eu haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd addysg Gymraeg wrthi'n datblygu tra roedd y grwpiau oedran hŷn yn y system addysg. Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl 16 i 29 mlwydd oed bron dair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi derbyn eu haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig o'i gymharu â'r rhai 65 oed a throsodd.

Mae'r ffigur isod yn dangos iaith addysg uwchradd siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl oedran.

Ffigur 23: iaith addysg uwchradd siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl oedran




O'r holl siaradwyr Cymraeg oedd wedi dysgu siarad Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc, roedd 74 y cant wedi derbyn addysg feithrin yn y Gymraeg yn unig neu'n bennaf a 68 y cant o'r un grŵp wedi derbyn addysg gynradd yn y Gymraeg yn unig neu'n bennaf. Roedd llai na hanner o siaradwyr Cymraeg oedd wedi dysgu siarad Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ifanc wedi derbyn addysg uwchradd yn y Gymraeg. Mae adroddiadau blynyddol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru yn dangos bod canran y dysgwyr sydd yn cael eu hasesu mewn Cymraeg iaith gyntaf yn gostwng rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd (Llywodraeth Cymru 2015b).

Eto, mae cyswllt amlwg rhwng oedran a dysgu Cymraeg gartref fel plentyn ac addysg cyfrwng Cymraeg. Bu i 73 y cant o bobl 16 i 29 mlwydd oed oedd wedi dysgu i siarad Cymraeg gartref dderbyn eu haddysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg, o'i gymharu â 24 y cant o bobl 65 oed a throsodd.


Mae'r ffigurau isod yn dangos rhuglder siaradwyr Cymraeg yn ôl iaith eu haddysg uwchradd a'u hoedran.

Ffigur 24: Canran sydd yn rhugl yn Gymraeg yn ôl iaith eu haddysg uwchradd



Roedd canran y siaradwyr Cymraeg a oedd wedi derbyn eu haddysg uwchradd yn y Gymraeg yn unig neu'n bennaf ac a oedd yn rhugl yn cynyddu gydag oedran. Fodd bynnag roedd nifer y siaradwyr Cymraeg a oedd wedi derbyn eu haddysg uwchradd yn Gymraeg yn unig neu'n bennaf ac a oedd yn rhugl lawer yn uwch ar gyfer y grwpiau oedran iau nag ar gyfer y grwpiau oedran hŷn.

Ffigur 25: Nifer y siaradwyr Cymraeg sydd yn rhugl a ddim yn rhugl, yn ôl iaith eu haddysg uwchradd



Roedd canran y siaradwyr Cymraeg a gafodd eu haddysg yn Gymraeg yn unig neu'n bennaf yn amrywio yn ôl ardal awdurdod lleol. Mae'n bwysig nodi ei bod hi'n bosibl i blentyn fyw mewn un ardal awdurdod lleol ond derbyn addysg mewn ardal awdurdod lleol arall. Mae'n bosibl hefyd bod oedolion bellach yn byw mewn ardal awdurdod lleol wahanol i'r un y cawsant eu haddysgu ynddi. Mae'r data fan hyn yn seiliedig ar leoliad cartref yr ymatebydd i'r arolwg.

Roedd canran yr holl siaradwyr Cymraeg a dderbyniodd eu haddysg feithrin trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf yn amrywio o 10 y cant yn Sir Fynwy i 70 y cant yng Ngwynedd. Roedd y canrannau yn debyg iawn o ran addysg gynradd Gymraeg, gyda 12 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi ei derbyn yn y Gymraeg yn Sir Fynwy a 71 y cant yng Ngwynedd.


Nododd 6 y cant o siaradwyr Cymraeg yn Sir Fynwy eu bod wedi derbyn addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig neu'n bennaf, o'i gymharu â 50 y cant yng Ngwynedd.

11.4. Iaith addysg pobl ifanc

Mae data diweddaraf Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgybl yn dangos bod 24 y cant o holl ddysgwyr Cymru mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a dwyieithog a bod 20 y cant o holl ddysgwyr Cymru mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Gofynnwyd i bobl ifanc 11 i 15 oed a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg ym mha iaith y maent yn astudio gwahanol bynciau yn yr ysgol uwchradd. At ddibenion dadansoddi, mae'r rhai a nododd eu bod yn dysgu'r pynciau bob amser neu bron bob amser yn y Gymraeg, neu'n y Gymraeg yn bennaf, wedi eu cyfuno a chyfeirir atynt fel y rhai a addysgir bob amser neu'n bennaf yn y Gymraeg. Dangosir eu hatebion yn y ffigur isod.

Ffigur 26: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg 11 i 15 oed yn astudio pynciau ynddi yn yr ysgol uwchradd




Mae'r ffigur yn dangos, ac eithrio Cymraeg fel pwnc, bod cyfran y siaradwyr Cymraeg yr addysgir y pynciau eraill iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg yn amrywio o 32 y cant o ran ieithoedd modern i 37 y cant o ran cerddoriaeth. Nododd 71 y cant o bobl 11 i 15 oed bod y Gymraeg yn cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf. Nid oedd y cwestiwn a ofynnwyd yn gwahaniaethu rhwng dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf ac fel ail iaith.

Mae rhai siaradwyr Cymraeg 11 i 15 oed yn dysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae'n bosibl bod y bobl ifanc hyn wedi nodi bod peth o'r addysgu yn digwydd yn Saesneg oherwydd eu bod yn mynychu ysgolion cyfrwng Saesneg.

Roedd pobl ifanc a oedd yn rhugl yn y Gymraeg yn fwy tebygol o astudio pynciau uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg na thrwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r ffigur isod yn dangos ym mha iaith yr oedd pobl ifanc rhugl yn dysgu gwahanol bynciau. Roedd cyfrannau'r bobl ifanc rhugl 11 i 15 oed a oedd yn dysgu gwahanol bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf yn amrywio fesul pwnc. Roedd 76 y cant o bobl ifanc rhugl yn dysgu gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf a 90 y cant yn dysgu drama drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf. Roedd 97 y cant o'r holl bobl ifanc a oedd yn rhugl yn y Gymraeg yn derbyn gwersi Cymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf.

Ffigur 27: Yr iaith y mae siaradwyr Cymraeg rhugl 11 i 15 oed yn astudio pynciau ynddi yn yr ysgol uwchradd



Dangosodd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 fod 95 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl yn astudio Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf. Roedd 68 y cant a 65 y

cant, yn ôl eu trefn, yn astudio mathemateg a gwyddoniaeth drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf.

Roedd llai na 9 y cant o bobl ifanc nad oeddent yn rhugl yn astudio unrhyw bwnc drwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf heblaw am y Gymraeg ei hun fel pwnc. Roedd 56 y cant o siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn rhugl yn astudio Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg; mae hyn yn gyson ag Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

O'r rhai oedd yn astudio mathemateg, gwyddoniaeth a Chymraeg i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf, roedd 15 y cant yn nodi nad oeddent yn rhugl. Wrth edrych ar y pynciau ar wahân, mae'r ganran yn weddol debyg ar gyfer mathemateg ac ar gyfer gwyddoniaeth hefyd. Fodd bynnag, o'r rhai oedd yn astudio Cymraeg (iaith gyntaf ac ail iaith) trwy gyfrwng y Gymraeg bob amser neu'n bennaf, nododd ychydig dros hanner ohonynt nad oeddent yn rhugl.

12. Ym mha sefyllfaoedd y mae siaradwyr Cymraeg yn siarad yr iaith?

12.1. Prif ganfyddiadau

Mae pobl ifanc yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob amser, neu bron bob amser, yn yr ysgol nag ydynt o wneud hynny gyda'u ffrindiau neu gartref .

- Mae 21 y cant o holl siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg gartref bob amser neu bron bob amser. Mae hyn yn cynyddu i 43 y cant ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae'r ganran yma'n cynyddu'n raddol yn ôl oedran o 29 y cant o bobl ifanc rhwng 3 a 15 mlwydd oed i 56 y cant o bobl 65 oed a throsodd.
- Mae 67 y cant o'r bobl ifanc rhwng 3 a 15 oed sydd yn rhugl yn y Gymraeg yn siarad Cymraeg bob amser yn yr ysgol. 26 y cant o'r grŵp hwnnw sydd bob amser yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau.
- Mae llai na hanner o'r rhai a ddysgodd i siarad Cymraeg gartref, boed yn rhugl neu heb fod yn rhugl, yn defnyddio'r Gymraeg gartref bob amser neu bron bob amser.
- Mae 57 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl wedi defnyddio'r Gymraeg yn eu sgwrs ddiwethaf gyda rhywun nad yw'n perthyn iddynt.

12.2. Siarad Cymraeg mewn ystod o sefyllfaoedd

Mae'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddibynnol iawn ar amgylchiadau dydd i ddydd unigolion. Mae'n bosibl bod gallu eu teuluoedd a'u ffrindiau yn y Gymraeg, yr ardal y maent yn byw ynddi, neu eu gwaith er enghraifft, yn dylanwadu ar gyfleoedd siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith. I'r rhai ifanc, mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd iddynt siarad Cymraeg yn aml.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod 41 y cant o'r siaradwyr Cymraeg yn byw naill ai wrthynt eu hunain neu ar aelwydydd lle gall pawb siarad Cymraeg (Llywodraeth Cymru 2013).

Ar gyfer cyfres o wahanol sefyllfaoedd, gofynnwyd i oedolion a phlant a phobl ifanc nodi pa iaith y maent yn ei defnyddio yn bennaf. Roedd yr opsiynau ar yr holiadur yn amrywio

ychedig ar gyfer oedolion a phlant a phobl ifanc, ond roedd rhai opsiynau tebyg hefyd. Un o'r rhain oedd y defnydd o'r Gymraeg yn y cartref.


O'r holl siaradwyr Cymraeg, boed yn rhugl neu heb fod yn rhugl, nododd 21 y cant eu bod yn siarad Cymraeg gartref bob amser neu bron bob amser. Roedd y ffigur yma yn cynyddu i 43 y cant o siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd traean o'r holl siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Saesneg gartref bob amser neu bron bob amser, neu Saesneg yn bennaf. Gall nifer ohonynt fod yn byw mewn cartrefi lle nad yw aelodau eraill y cartref yn gallu siarad Cymraeg.

O'r holl unigolion hynny a ddysgodd siarad Cymraeg gartref, roedd bron i hanner yn ei defnyddio gartref bob amser neu bron bob amser. Roedd 26 y cant yn rhagor yn ei defnyddio yn bennaf neu'n weddol gyfartal â'r Saesneg, gyda'r gweddill yn siarad Saesneg yn bennaf.

Wrth ddadansoddi yn ôl oedran, mae'n glir fod y to hŷn yn fwy tebygol o siarad Cymraeg gartref yn gyson na'r to iau. O blith yr holl siaradwyr Cymraeg, roedd 11 y cant o blant a phobl ifanc 3 i 15 oed yn siarad Cymraeg gartref bob amser, tra bo dros dair gwaith hynny o bobl 65 oed a throsodd yn ei defnyddio'n gyson gartref. Gan ein bod yn gwybod bod siaradwyr Cymraeg ifanc yn fwy tebygol o fod â'r un rhiant rhugl nag unrhyw grŵp oedran arall, nid yw'n syndod eu bod yn llai tebygol o siarad Cymraeg gartref nag unrhyw grŵp oedran arall.

Mae'r patrwm yn weddol debyg wrth edrych ar siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig, ond nid yw'r gwahaniaeth rhwng y cenedlaethau mor sylweddol.


Ffigur 28: Yr iaith a siaredir gartref gan siaradwyr Cymraeg rhugl yn ôl oedran



Roedd plant a phobl ifanc 3 i 15 oed lawer yn fwy tebygol o siarad Cymraeg bob amser neu bron bob amser, neu Gymraeg yn bennaf yn yr ysgol nag oedden nhw o siarad Cymraeg gartref, gyda 30 y cant ohonynt yn siarad Cymraeg bob amser neu bron bob amser yn yr ysgol. O edrych ar blant a phobl ifanc rhugl yn unig, roedd 67 y cant yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu bron bob amser yn yr ysgol, ond roedd hyn yn disgyn yn sylweddol tra'u bod yn siarad â'u ffrindiau. Mae cyfrwng addysgu'r ysgol yn dylanwadu ar ddefnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg yn yr ysgol, gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn cynnig cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn rheolaidd yn ystod gwrsi.

Roedd ychydig dros chwarter o blant a phobl ifanc 3 i 15 oed a oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl yn siarad Cymraeg gyda'u ffrindiau bob amser neu bron bob amser, tra bo ychydig dros hanner ohonynt yn siarad Cymraeg yn bennaf gyda'u ffrindiau neu'n defnyddio'r ddwy iaith yn gyfartal. Rhaid ystyried wrth gwrs ei bod yn debygol bod gan siaradwyr Cymraeg rhugl ffrindiau nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg eu hunain a bod hynny'n debygol o ddylanwadu ar iaith y cyfathrebu, ac yn enwedig mewn sefyllfaoedd grŵp.

Ffigur 29: Yr iaith a siaredir yn bennaf gan blant a phobl ifanc rhugl 3 i 15 oed gyda ffrindiau ac yn yr ysgol



Roedd canran y siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn siarad Cymraeg bob amser gyda’u ffrindiau yn is ymysg y grŵp oedran 16 i 29 oed na’r grŵp oedran 3 i 15 oed. Gwelwyd eisoes bod y rhai 16 i 29 oed yn llai tebygol nag unrhyw grŵp oedran arall o siarad Cymraeg bob dydd. Roedd y ganran yn uwch ymysg y grwpiau oedran hŷn, lle’r oedd chwarter neu fwy o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd gyda’u ffrindiau ymhlith y grwpiau oedran 30 oed a throsodd.

Gofynnwyd cwestiwn ychwanegol i oedolion am yr iaith y gwnaethon nhw ei siarad y tro diwethaf iddynt gael sgwrs â rhywun nad oedd yn aelod o’u teulu. Nododd 32 y cant o’r holl siaradwyr Cymraeg mai Cymraeg oedd iaith eu sgwrs ddiwethaf. Yn 2004-06, 41 y cant o siaradwyr Cymraeg a ddywedodd hynny felly bu gostyngiad o 9 pwynt canran rhwng y ddau arolwg; mae’n debyg mai’r cynnydd a welwyd yn nifer y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl sydd yn esbonio hyn.

Roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg sydd yn dweud mai Cymraeg oedd iaith eu sgwrs ddiwethaf yn cynyddu’n raddol gydag oedran, o 22 y cant ymysg y grŵp oedran 16 i 29 oed i 45 y cant ymysg y grŵp 65 oed a throsodd.

O blith y siaradwyr Cymraeg rhugl, dywedodd 57 y cant mai Cymraeg oedd yr iaith a ddefnyddiwyd yn eu sgwrs ddiwethaf, sydd yn gyson â chanlyniadau 2004-06 lle nododd 59 y cant bod eu sgwrs ddiwethaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd 5 y cant o'r siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl mai Cymraeg oedd iaith eu sgwrs ddiwethaf.

13. Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned

13.1. Prif ganfyddiadau

Mae siaradwyr Cymraeg rhugl lawer yn fwy tebygol o fynychu digwyddiad cymdeithasol, diwylliannol neu weithgaredd chwaraeon a gynhelir yn y Gymraeg na phobl llai rhugl.

- Mae 43 y cant o siaradwyr Cymraeg wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd cymdeithasol neu ddiwylliannol a gafodd ei gynnal yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a 19 y cant wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd chwaraeon a gafodd ei gynnal yn y Gymraeg.
- Mae'r wybodaeth yn awgrymu nad yw pobl ifanc yn gwbl ddibynol ar ysgolion i drefnu iddynt fynychu digwyddiadau diwylliannol neu weithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

13.2. Mynychu digwyddiadau cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon a gynhaliwyd yn y Gymraeg

Gofynnwyd i ba raddau y mae pobl ifanc ac oedolion yn mynd i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon a gynhelir trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnwyd dau gwestiwn ar wahân i bobl ifanc am fynychu digwyddiadau neu weithgareddau a gynhelir yn y Gymraeg; un am y rhai a gafodd eu trefnu gan yr ysgol ond y tu allan i oriau'r ysgol, ac un arall am y rhai na chawsant eu trefnu gan yr ysgol.

Mae'r wybodaeth hon yn cynnig gwell dealltwriaeth o ran y defnydd o'r Gymraeg yn gymdeithasol y tu hwnt i'r ysgol neu'r cartref. Mae'n debygol hefyd bod siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg mewn digwyddiadau nad ydynt wedi eu cynnal yn y Gymraeg ac nac ydynt yn targedu siaradwyr Cymraeg. Nid oedd yr arolwg yn casglu gwybodaeth am hynny.

Yn ystod 2014-15 cynhaliodd Prifysgol Bangor astudiaeth ymchwil ar ran Llywodraeth Cymru i archwilio patrymau defnydd iaith mewn cymunedau yng Nghymru a rhai o'r ffactorau sydd

yn gysylltiedig â hyfywedd y Gymraeg fel iaith gymunedol. Un o ganfyddiadau'r astudiaeth ymchwil oedd nad oedd pawb a holwyd yn mynychu gweithgareddau cymunedol yn y Gymraeg – i lawer, roedd rhyngweithiad cymunedol yn y Gymraeg yn seiliedig, yn hytrach, ar weithgarwch dydd i ddydd megis siopa a chyrchu gwasanaethau (Llywodraeth Cymru 2015c).

Mae gwybodaeth am fynychu digwyddiadau a gynhaliwyd yn y Gymraeg hefyd ar gael yn adroddiadau blynyddol Llywodraeth Cymru ar weithrediad ei Strategaeth Iaith Gymraeg. Un o amcanion strategol y strategaeth honno yw cryfhau sefyllfa'r Gymraeg o fewn y gymuned. Yn yr adroddiadau blynyddol, defnyddir gwybodaeth weinyddol i adrodd ar fynychwyr digwyddiadau a gynhaliwyd yn y Gymraeg, gwybodaeth a ddarperir gan bartneriaid cyllido Llywodraeth Cymru megis Urdd Gobaith Cymru a'r Mentrau Iaith.

Mae'r niferoedd sydd yn mynychu digwyddiadau o'r fath yn amrywio'n flynyddol am resymau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig ag iaith, er enghraifft gall y tywydd effeithio ar y nifer sydd yn mynychu digwyddiadau yn yr awyr agored. Mae'n bwysig felly ystyried argaeledd a hygyrchedd digwyddiadau o'r fath wrth ddadansoddi'r wybodaeth o'r arolwg, gan fod bywiogrwydd o fewn cymunedau yn amrywio o ardal i ardal.


Mae Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru hefyd yn mesur cyfraddau mynychu digwyddiadau celfyddydol a chyfranogi yn y celfyddydau ynghyd ag agweddau tuag at y celfyddydau. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am fynychu digwyddiadau Cymraeg. Cynhelir yr arolwg bob pum mlynedd ac mae'r data diweddaraf yn dyddio yn ôl i 2010 (Cyngor Celfyddydau Cymru 2010). Bydd canlyniadau Arolwg y Celfyddydau 2015 yn cael eu cyhoeddi ym Mehefin 2016 – dyma ganlyniadau olaf yr arolwg gan y bydd yn cael ei gyfuno ag Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2016-17.

O'r holl oedolion sydd yn siarad Cymraeg, roedd 43 y cant wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd cymdeithasol neu ddiwylliannol wedi ei gynnal yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd hyn yn cynyddu i 56 y cant ymhlith siaradwyr rhugl Cymraeg. Nododd Arolwg y Celfyddydau 2010 bod 16 y cant o oedolion Cymru wedi mynychu digwyddiad Cymraeg yn ystod y 12 mis blaenorol, gan godi i 42 y cant ar gyfer y rhai oedd yn gallu siarad Cymraeg yn 'rhugl' neu'n 'weddol'.

Mewn 20 o'r 22 ardal awdurdod lleol, roedd tri o bob deg oedolyn a oedd yn siarad Cymraeg yn dweud iddynt fynychu digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol cyfrwng Cymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Dim ond ym Mlaenau Gwent a Sir Fynwy yr oedd llai na thri o

bob deg oedolyn oedd yn siarad Cymraeg wedi mynychu digwyddiad o'r fath. Rhaid cofio nid yw hynny o reidrwydd yn golygu bod y digwyddiad ei hun wedi digwydd o fewn yr ardal oedd hynny, ac felly nid yw'n arwydd o ddarpariaeth mewn ardal awdurdod lleol penodol.


Ffigur 30: Mynychu digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl ardal awdurdod lleol



Ar gyfartaledd roedd oedolion sydd yn diffinio eu hunain yn bobl sydd yn rhugl yn y Gymraeg ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi mynychu digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol trwy gyfrwng y Gymraeg nac oedolion llai rhugl, a bron i dair gwaith yn fwy tebygol o fod wedi mynychu gweithgaredd chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

Roedd yr oedolion hynny oedd wedi dysgu Cymraeg gartref pan oeddent yn blant ychydig yn fwy tebygol o fod wedi mynychu digwyddiad diwylliannol neu gymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg na'r rhai a ddysgodd trwy'r sector addysg. Mae 64 y cant o oedolion a ddysgodd Gymraeg yn y coleg neu brifysgol, a 44 y cant a ddysgodd siarad Cymraeg fel oedolyn wedi mynychu digwyddiad o'r fath. Ni chafodd hyn ei ailadrodd i'r un graddau gyda gweithgareddau chwaraeon cyfrwng Cymraeg.

Ffigur 31: Mynychu digwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol yn ôl ble dysgwyd i siarad Cymraeg



Roedd y gyfran sydd wedi bod i ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwylliannol a gynhaliwyd yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol yn cynyddu ychydig gydag oedran. Roedd y ffigur yn lleihau ychydig gydag oedran o ran digwyddiadau chwaraeon.

Roedd canran yr oedolion a oedd yn siarad Cymraeg ac a oedd wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd chwaraeon wedi ei gynnal yn Gymraeg yn is na'r gyfran oedd wedi mynychu digwyddiadau diwylliannol Cymraeg. Dywedodd 19 y cant o oedolion a oedd yn siarad Cymraeg eu bod wedi mynychu gweithgaredd chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r cwestiynau a ofynnwyd i bobl ifanc 3 i 15 oed yn rhoi blas o'r graddau y mae'r Gymraeg yn rhan o fywyd cymdeithasol plant a phobl ifanc, ac o'r graddau y mae eu defnydd o'r Gymraeg yn ddibynnol ar weithgareddau a drefnwyd gan ysgolion.


Dywedodd llai na hanner o'r holl siaradwyr Cymraeg 3 i 15 oed eu bod wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd cymdeithasol neu ddiwylliannol Cymraeg, a oedd wedi ei drefnu gan yr ysgol y tu allan i oriau'r ysgol. Roedd 37 y cant o siaradwyr Cymraeg 3 i 15

oed wedi mynychu digwyddiad diwylliannol yn Gymraeg na chafodd ei drefnu gan yr ysgol, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Roedd y gwahaniaeth ychydig yn llai rhwng canran y bobl ifanc oedd wedi mynychu digwyddiadau neu weithgareddau chwaraeon Cymraeg a drefnwyd gan yr ysgol, sef 28 y cant, a'r ganran oedd wedi mynychu digwyddiadau o'r fath nas trefnwyd gan yr ysgol, sef 24 y cant. Golyga hyn yr oedd bron i un o bob pedwar plentyn oedd yn siarad Cymraeg wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn y flwyddyn ddiwethaf, boed hynny trwy'r ysgol neu beidio. Er hyn, mae'r wybodaeth yn awgrymu nad yw pobl ifanc yn gwbl ddbynnol ar ysgolion i drefnu iddynt fynychu digwyddiadau diwylliannol neu weithgareddau chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ffigur isod yn cymharu canran y bobl ifanc sydd yn rhugl ac nad ydynt yn rhugl, sydd wedi mynychu digwyddiadau Cymraeg naill ai a drefnwyd gan yr ysgol neu nas trefnwyd gan yr ysgol.

Ffigur 32: Cyfran y bobl ifanc sydd wedi mynychu digwyddiad cymdeithasol, diwylliannol neu chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl rhuglder



Roedd gwahaniaeth sylweddol rhwng canran y bobl ifanc oedd yn rhugl ac a oedd wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd diwylliannol neu chwaraeon cyfrwng Cymraeg, a chanran y bobl ifanc nad oeddent yn rhugl ac a oedd wedi mynychu digwyddiad o'r fath. Roedd 74 y cant o'r rhai a oedd yn rhugl wedi mynychu digwyddiad diwylliannol wedi ei drefnu gan yr ysgol o'i gymharu â 28 y cant o'r rhai nad oeddent yn rhugl. Roedd 59 y cant o'r rhai rhugl wedi mynychu gweithgaredd chwaraeon wedi ei drefnu gan ysgol o'i gymharu â 10 y cant y rhai nad oeddent yn rhugl.

14. Negeseuon testun, e-bost a defnyddio cyfryngau cymdeithasol

14.1. Prif ganfyddiadau

Yng nghyd-destun yr adran hon mae defnyddio'r Gymraeg ar y cyfryngau digidol yn cynnwys defnyddio'r Gymraeg bob amser neu bron bob amser, y Gymraeg yn bennaf, neu'r Gymraeg a'r Saesneg yn weddol gyfartal fel arfer wrth ddefnyddio'r cyfryngau digidol. Mae'n bosibl bod y rhai a nododd 'Saesneg yn bennaf' neu 'bob amser/bron bob amser yn Saesneg' hefyd yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg. Fodd bynnag, gan nad oes modd gwybod i sicrwydd mai'r Gymraeg (ac nid iaith arall) yw'r iaith a ddefnyddir ynghyd â'r Saesneg yn yr achosion hyn, nid yw'r ddau grŵp hyn wedi eu cynnwys yn y dadansoddiad.

Mae ychydig dros chwarter o holl siaradwyr Cymraeg sydd yn defnyddio neges destun yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg i anfon negeseuon testun o ffôn symudol at ffrind.

- Mae hyn yn cynyddu i ychydig dros hanner o siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg wrth anfon negeseuon testun.
- Mae 18 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg 16 oed a throsodd sydd yn defnyddio Facebook yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg, tra bo 12 y cant yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg ar Twitter.

14.2. Anfon negeseuon testun a negeseuon e-bost Cymraeg a defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol yn Gymraeg

Casglwyd gwybodaeth na chafodd ei chasglu yn yr Arolygon Defnydd blaenorol ynghylch i ba raddau y caiff y Gymraeg ei defnyddio gan bobl ifanc ac oedolion ar safleoedd rhwydweithiau cymdeithasol, trwy anfon negeseuon testun ac e-bostio eu ffrindiau. Ni cheir cymariaethau felly gydag Arolygon Defnydd Iaith 2004-06.

Un o amcanion strategol Llywodraeth Cymru yw cryfhau'r isadeiledd ar gyfer y Gymraeg, gan sicrhau bod mwy o declynnau ac adnoddau ar gael i hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan

gynnwys mewn peuoedd digidol. Un o nodau strategol y Comisiynydd yw cydgysylltu datblygiadau isadeiledd y Gymraeg er mwyn i unigolion a sefydliadau o bob math fedru cynnig darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys technoleg gwybodaeth sydd yn cynnal y Gymraeg.

Yn dilyn adborth gan randdeiliaid a'r cyhoedd ar ôl cyhoeddi canlyniadau blwyddyn gyntaf yr arolwg, mae'r adroddiad hwn bellach yn canolbwyntio ar siaradwyr Cymraeg sydd yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol, ar neges destun neu e-bost yn hytrach na Chymraeg yn unig. Gwneir hyn gan ei bod yn debygol iawn bod siaradwyr Cymraeg, wrth ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, yn cyfnewid negeseuon gydag amrywiaeth o ddefnyddwyr gyda gwahanol alluoedd ieithyddol a gwahanol arferion o ran defnyddio'r Gymraeg.


Mae rhai gweithgareddau ar rwydweithiau cymdeithasol wedi eu hanelu at gynulleidfaedd cymysg eu hiaith; nid cyfathrebu un i un yw llawer o'r gweithgareddau hyn. Mae deinameg rwydweithiau cymdeithasol felly yn gallu llywio defnydd iaith.

Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan BBC Cymru Wales, S4C a Llywodraeth Cymru bod pobl yn ystyried amryw ffactorau wrth benderfynu defnyddio'r Gymraeg ai peidio ar blatfformau megis Facebook. Un o'r ffactorau hyn, er enghraifft, oedd iaith y gynulleidfa oedd am weld y cynnwys. Roedd nifer yn dweud nad oeddent yn ystyried defnyddio'r Gymraeg ar Facebook gan fod eu hystod o ffrindiau yn cynnwys pobl ddi-Gymraeg (BBC Cymru Wales, S4C a Llywodraeth Cymru 2013).

Roedd ychydig dros chwarter o'r holl ymatebwyr oedd yn anfon negeseuon testun, beth bynnag oedd eu gallu i siarad Cymraeg, yn defnyddio Cymraeg wrth anfon negeseuon at eu ffrindiau. O'r rhai a nododd eu bod yn defnyddio Cymraeg gyda ffrindiau, dywedodd bron i ddau o bob tri ohonynt eu bod yn defnyddio'r Gymraeg wrth anfon negeseuon testun at ffrindiau.

Nododd dros hanner o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod yn anfon negeseuon testun yn Gymraeg, o'i gymharu â thri y cant o'r siaradwyr sydd ddim yn rhugl. Roedd y rhai hynny a ddysgodd y Gymraeg gartref lawer yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg wrth anfon negeseuon at ffrindiau o'i gymharu â'r rhai a ddysgodd y Gymraeg mewn llefydd eraill.

Ffigur 33: Y defnydd o'r Gymraeg ar ffonau symudol wrth gyfathrebu â'u ffrindiau yn ôl rhuglder ac oedran



Siaradwyr Cymraeg rhugl oedd fwyaf tebygol felly o ddefnyddio'r Gymraeg wrth anfon negeseuon ar eu ffonau symudol. Wrth edrych yn benodol ar siaradwyr rhugl yn ôl grŵp oedran, roedd 45 y cant o bobl 16 i 29 oed yn defnyddio Cymraeg wrth anfon negeseuon testun. Fodd bynnag roedd canran uwch o ymatebwyr rhugl hŷn yn defnyddio Cymraeg mewn negeseuon testun at eu ffrindiau, gyda thros hanner ym mhob un grŵp dros 30 oed yn gwneud hynny. Ni chynhwysir defnydd y grŵp oedran 3 i 15 oed o'r Gymraeg wrth anfon negeseuon testun yn y dadansoddi gan ei bod hi'n debygol na fydd gan nifer o'r plant ieuengaf fynediad at dechnoleg a fyddai'n eu galluogi i anfon neges destun neu e-bost.


Roedd 20 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg sydd yn anfon negeseuon e-bost at ffrindiau yn defnyddio Cymraeg, ychydig yn is na'r ganran sydd yn anfon negeseuon testun at ffrindiau. Fodd bynnag, roedd y ganran hon yn cynyddu i 44 y cant wrth ddadansoddi yn ôl siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd patrwm tebyg i'w weld wrth ddadansoddi yn ôl rhuglder ac oedran, gyda'r grwpiau hŷn yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg wrth e-bostio eu cyfeillion.

Roedd holiaduron oedolion a phlant a phobl ifanc yn amrywio ychydig, gyda'r holiadur oedolion yn gofyn am ddefnydd o'r Gymraeg ar Facebook a Twitter yn benodol, tra bo'r holiadur plant a phobl ifanc yn holi am ddefnydd ar rwydweithiau cymdeithasol yn ehangach.

O ran y defnydd o'r Gymraeg ar Facebook, sef rhwydwaith o gyfeillion a theulu gan fwyaf, roedd 18 y cant o'r holl siaradwyr Cymraeg sydd yn defnyddio Facebook yn defnyddio Cymraeg tra bo 12 y cant sydd yn defnyddio Twitter yn gwneud hynny yn y Gymraeg, sydd yn rhwydwaith llawer ehangach o ran natur y cysylltiadau. Mae'n debygol bod y gwahaniaethau o ran cynulleidfa a fformat y rhwydweithiau hyn yn dylanwadu ar y defnydd o'r Gymraeg, yn debyg i'r hyn a nodwyd yng ngwaith ymchwil BBC Cymru Wales, S4C a Llywodraeth Cymru (BBC Cymru Wales, S4C a Llywodraeth Cymru 2013).

Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl lawer yn fwy tebygol na siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl o ddefnyddio'r Gymraeg ar Facebook a Twitter, gyda bron i ddau o bob pump yn defnyddio'r Gymraeg ar Facebook a thros dri o bob deg ar Twitter. Er bod nifer is o siaradwyr Cymraeg rhugl hyn yn defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol na'r rhai iau, roedd pobl hyn ychydig yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar y rhwydweithiau hyn.

Ffigur 34: Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn defnyddio o leiaf gymaint o'r Gymraeg â'r Saesneg i ysgrifennu ar Facebook a Twitter yn ôl grŵp oedran



Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd wedi dysgu siarad yr iaith gartref pan oeddent yn blant ifanc lawer yn fwy tebygol na siaradwyr Cymraeg a oedd wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol o ddefnyddio'r Gymraeg ar rwydweithiau cymdeithasol. Ymhlith yr oedolion oedd yn defnyddio Facebook, roedd 42 y cant o'r rhai ddysgodd siarad Cymraeg gartref yn defnyddio Cymraeg ar Facebook, o'i gymharu â 10 y cant o'r rhai a ddysgodd i siarad Cymraeg yn yr ysgol feithrin a 4 y cant o'r rhai a ddysgodd i siarad Cymraeg yn yr ysgol gynradd.

Roedd gallu unigolyn i ysgrifennu yn y Gymraeg hefyd i'w weld yn cael effaith ar ddefnydd; er enghraifft, roedd bron i hanner yr holl siaradwyr Cymraeg a ddywedodd eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda iawn yn defnyddio'r Gymraeg ar Facebook.

Dim ond nifer fechan iawn o bobl nad oeddent yn rhugl oedd yn defnyddio'r cyfryngau digidol yn y Gymraeg.

O'r bobl ifanc hynny oedd yn siarad Cymraeg bob amser neu bron bob amser, neu Gymraeg yn bennaf gyda'u ffrindiau, roedd dros draean yn defnyddio'r Gymraeg ar rwydweithiau fel

Facebook a Bebo. 4 y cant o'r rhai oedd yn siarad Saesneg gyda'u ffrindiau oedd yn defnyddio'r Gymraeg ar rwydweithiau cymdeithasol.

Mae perthynas hefyd rhwng amlder o ran defnyddio'r iaith a'r defnydd o'r Gymraeg ar-lein ymysg pobl ifanc. Mae siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd lawer yn fwy tebygol na siaradwyr Cymraeg eraill o ddefnyddio'r Gymraeg ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

15. Delio â sefydliadau cyhoeddus yn y Gymraeg

15.1. Prif ganfyddiadau

Mae ychydig dros hanner siaradwyr Cymraeg yn ceisio defnyddio'r Gymraeg, yn achlysurol man lleiaf, wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus.

- Mae siaradwyr Cymraeg sydd yn siarad yr iaith bob dydd ddwywaith yn fwy tebygol o geisio defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus na'r rhai hynny sydd yn siarad Cymraeg yn llai aml.
- Mae'r mwyafrif oedd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus yn achlysurol man lleiaf yn llwyddo o leiaf weithiau wrth ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft drwy siarad â rhywun yn y Gymraeg neu gael deunyddiau yn y Gymraeg.
- O'r unigolion hynny sydd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob amser gyda sefydliadau cyhoeddus, mae ychydig dros hanner yn teimlo eu bod yn llwyddo bob tro neu bron bob tro.
- Mae naw o bob deg siaradwr Cymraeg sydd bob amser yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'r cwmni neu sefydliad yn ceisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus o leiaf weithiau.

15.2. Ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus

Un o brif amcanion Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gweithio tuag at gynyddu defnydd o'r Gymraeg yng nghyswllt darparu gwasanaethau. Mae Safonau'r Gymraeg yn sefydlu fframwaith newydd o ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyrff yng Nghymru. Mae'r safonau yn ei gwneud yn fwy eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg, ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn y Gymraeg, a sicrhau cysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg yng Nghymru.

Gofynnwyd i oedolion yn unig i ba raddau y maent yn defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau cyhoeddus neu swyddogol. Ceir yma wybodaeth am sut y mae eu hymdrechion i siarad Cymraeg yn cymharu â'u defnydd gwirioneddol ohoni.

Mae'r arolwg hwn yn darparu darlun o brofiad yr unigolyn wrth ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Mae'n bwysig nodi bod argaeledd gwasanaethau Cymraeg yn amrywio'n sylweddol yn ddaearyddol ac o sefydliad i sefydliad. Nid oedd yr arolwg yn holi beth sydd yn cymell neu'n rhwystro'r defnydd o'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus.

Mae ymchwil diweddar gan Gyngor ar Bopeth yn amlygu rhai rhwystrau i ddefnyddio gwasanaethau Cymraeg. Canfu'r ymchwil hwnnw bod ystod o ffactorau cymhleth yn effeithio ar ddefnydd pobl o wasanaethau Cymraeg, gan gynnwys rhwystrau oedd yn golygu ei bod hi'n fwy anodd i ddefnyddio gwasanaethau yn y Gymraeg o'i gymharu â'r Saesneg, rhwystrau o ran hyder pobl yn eu sgiliau iaith, a'u canfyddiadau o wasanaethau Cymraeg yn gyffredinol (Cyngor ar Bopeth 2015).

Mae rhywfaint o wybodaeth ychwanegol ar gael ynghylch y defnydd o wasanaethau Cymraeg o ffynonellau gweinyddol, megis galwadau i NHS Direct, ceisiadau addysg uwch neu ymatebion i holiaduron swyddogol. Fodd bynnag, mae yna amryw broblemau o ran safon rhai o'r systemau gweinyddol hyn, megis anawsterau cofnodi'r wybodaeth neu allu'r systemau i adrodd yr wybodaeth sydd ei hangen. Hefyd mae problem o ran parhad y data yn sgil newid systemau. Mae'r arolwg hwn felly yn cynnig darlun mwy cyflawn o'r defnydd o'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus.

Roedd ychydig dros hanner yr oedolion oedd yn siarad Cymraeg yn ceisio defnyddio'r Gymraeg, yn achlysurol man lleiaf, wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus megis cynghorau sir. Roedd y ganran hon yn cynyddu i 79 y cant o blith siaradwyr Cymraeg rhugl.


Tra bo siaradwyr Cymraeg hŷn yn fwy tebygol na'r rhai ifanc o geisio delio â sefydliadau cyhoeddus yn y Gymraeg, mae'n ymddangos nad yw oedran yn dylanwadu ar lwyddiant o safbwynt defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus. Roedd pobl hŷn yn fwy tebygol o geisio defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus, 57 y cant o bobl 65 oed a throsodd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg o leiaf weithiau neu'n fwy aml gyda sefydliadau cyhoeddus o'i gymharu â 44 y cant o bobl 16 i 29 oed.

Wrth edrych ar y data yn ôl ardal awdurdod lleol mae'n bwysig nodi bod y data yn cynrychioli'r ardal y mae'r ymatebydd yn byw ynddi yn hytrach na'r ardal y mae'r sefydliadau cyhoeddus ynddi. Mae'n bosibl bod unigolyn yn delio â sefydliadau cyhoeddus y tu allan i'r ardal y mae'n byw ynddi.

Mewn chwe ardal awdurdod lleol roedd llai na 30 y cant o oedolion oedd yn siarad Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg weithiau man lleiaf wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus. Roedd y chwe ardal yn ne-ddwyrain Cymru.

Roedd siaradwyr Cymraeg oedd yn siarad yr iaith bob dydd ddwywaith yn fwy tebygol na'r rhai oedd yn siarad yr iaith bob wythnos o geisio defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus. Roedd 26 y cant o bobl oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn dweud eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob amser gyda sefydliadau cyhoeddus.


Ffigur 35: Ceisio defnyddio'r Gymraeg â sefydliadau cyhoeddus yn ôl amlder siarad Cymraeg



Mae'n ymddangos bod cydberthynas rhwng defnydd pobl o'r Gymraeg yn y gwaith a'u defnydd o'r Gymraeg wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus. Gofynnwyd i'r rhai hynny sydd yn gweithio ym mha iaith y maent yn cyfathrebu â phobl tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad, fel rhan o'u gwaith. O'r rhai a nododd eu bod yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad bob amser, dywedodd 90 y cant eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus o leiaf weithiau, gyda 57 y cant ohonynt yn dweud eu bod yn ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus bob amser. Roedd 89 y cant o'r rhai sydd fel arfer yn defnyddio'r Gymraeg gyda phobl y tu allan i'r cwmni neu'r

sefydliad hefyd yn ei defnyddio yn achlysurol man lleiaf wrth ymwneud â sefydliadau cyhoeddus.

Ffigur 36: Ceisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus yn ôl y defnydd o'r Gymraeg yn rhinwedd eu swydd



Gofynnwyd hefyd ynghylch y defnydd o'r Gymraeg wrth lenwi ffurflenni swydddogol. Roedd 37 y cant yn ceisio gwneud hyn o leiaf weithiau, gyda'r ganran hon yn cynyddu i 63 y cant ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl.

Eto, mae'n ymddangos fod cydberthynas rhwng amlder siarad Cymraeg â pha mor debygol yw unigolyn o geisio llenwi ffurflen swydddogol, gyda 60 y cant o siaradwyr Cymraeg oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn llenwi ffurflenni yn Gymraeg weithiau neu'n fwy aml, o'i gymharu â 22 y cant oedd yn siarad Cymraeg bob wythnos, ac 11 y cant oedd yn siarad yn llai aml.

Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn ysgrifennu'n Gymraeg o leiaf weithiau yn y gwaith hefyd lawer yn fwy tebygol o geisio defnyddio'r Gymraeg i lenwi ffurflenni swydddogol. Roedd 61 y cant o oedolion oedd yn ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg yn eu gwaith hefyd yn ceisio llenwi ffurflenni swydddogol yn Gymraeg. O'r rhain, roedd 15 y cant yn ceisio gwneud hyn bob

amser. Mae'n bosibl fod defnydd cyson wrth ysgrifennu yn y Gymraeg fel rhan o'u gwaith yn magu hyder ac arferiad wrth ymwneud â dogfennau swyddogol y tu allan i'r gweithle.

Roedd siaradwyr Cymraeg a oedd yn gallu ysgrifennu'n dda iawn neu'n dda lawer yn fwy tebygol na'r rheini nad ydynt yn gallu ysgrifennu'n dda iawn neu'n dda o geisio llenwi ffurflenni swyddogol yn y Gymraeg.


O ran yr Arolwg Defnydd Iaith 2013-2015 ei hun, cwblhaodd 23 y cant o ymatebwyr yr arolwg yn Gymraeg. O'r rheini a ddywedodd eu bod bob amser neu bron bob amser yn ceisio defnyddio'r Gymraeg i lenwi ffurflenni swyddogol, cwblhaodd 84 y cant ohonynt yr arolwg hwn yn Gymraeg.

15.3. Llwyddiant o safbwynt defnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus

Gofynnwyd cwestiwn ynghylch pa mor aml yr oedd unigolion yn llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio gyda sefydliadau cyhoeddus, boed hynny'n llwyddiant i siarad â rhywun yn y Gymraeg, neu i gael deunyddiau yn y Gymraeg, er enghraifft. Yn y cyd-destun hwn mae'n bosibl bod canfyddiad pobl o lwyddiant yn dibynnu i raddau ar ddisgwyliadau unigolion wrth ymwneud â sefydliadau yn y Gymraeg, ac mae angen cadw hynny mewn cof wrth ddadansoddi'r canlyniadau hyn.

Roedd 96 y cant o'r rhai a oedd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg o leiaf weithiau yn teimlo eu bod yn llwyddo o leiaf weithiau wrth ddefnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus. Roedd un o bob pump, 22 y cant, yn teimlo eu bod yn llwyddo bob tro neu bron bob tro.

Ffigur 37: Llwyddiant wrth geisio defnyddio'r Gymraeg gyda sefydliadau cyhoeddus



O'r unigolion hynny oedd yn ceisio defnyddio'r Gymraeg bob amser gyda sefydliadau cyhoeddus, roedd ychydig dros hanner, 54 y cant, yn teimlo eu bod yn cael llwyddiant bob tro neu bron bob tro, a 29 y cant yn llwyddo fel arfer. O'r unigolion hynny sydd fel arfer yn ceisio gwasanaeth Cymraeg, 16 y cant oedd yn llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg bob amser neu bron bob amser.

Roedd yr unigolion hynny sydd yn siarad Cymraeg bob dydd dair gwaith yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn llwyddo i gael defnyddio'r Gymraeg bob tro neu bron bob tro wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus o'i gymharu â'r rhai sydd yn siarad Cymraeg bob wythnos. Un rheswm posibl am hyn yw bod siaradwyr Cymraeg sydd yn defnyddio'r iaith bob dydd yn fwy tebygol o geisio gwasanaeth Gymraeg bob amser neu fel arfer, ac felly yn eu tro yn fwy tebygol o dderbyn gwasanaeth Cymraeg gan sefydliad.

Gofynnwyd cwestiwn tebyg yn ymwneud ag amlder llwyddiant wrth lenwi ffurflenni swyddogol. Eto, roedd cyfran uchel yn nodi iddynt lwyddo i raddau gyda'r broses hon, gyda 98 y cant yn dweud eu bod yn llwyddo o leiaf weithiau. Nododd 19 y cant eu bod yn llwyddo bob tro neu bron bob tro wrth ddefnyddio'r Gymraeg i lenwi ffurflenni swyddogol.

16. Defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith

16.1. Prif ganfyddiadau

Mae dau draean o siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio yn siarad yr iaith gyda chydweithwyr o leiaf weithiau. Mae canran debyg yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliadau yn rhinwedd eu swydd.

- Gwelir canran uwch yn defnyddio'r Gymraeg o leiaf weithiau gyda chydweithwyr, 81 y cant, os yw'r cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes.
- Mae bron i ddau draean o holl siaradwyr Cymraeg, beth bynnag eu lefelau rhuglder, yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'r cwmni neu sefydliad tra'u bod yn y gwaith.
- Mae siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio yn y sector cyhoeddus ychydig yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr na siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio yn y sector preifat.

16.2. Y Gymraeg yn y gweithle

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i oedolion sydd yn gweithio ynghylch i ba raddau y maent yn defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle a sut y caiff yr iaith ei thrin a'i hystyried yno. Roedd y cwestiynau yn gofyn a oedd yr ymatebydd yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr neu bobl y tu allan i'w sefydliad, ac a oedd yn ysgrifennu unrhyw beth yn y Gymraeg yn y gwaith. Gofynnwyd hefyd a oedd y cyflogwr yn cynnig rhywbeth i siaradwyr Cymraeg wisgo i adnabod eu bod yn gallu siarad Cymraeg, ac am eu hagwedd tuag at y Gymraeg.

Mae Arolwg Sgiliau Cyflogwyr Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau yn darparu gwybodaeth allweddol ynghylch y galw am lafur ymhlith cyflogwyr, diffygion sgiliau (gan gynnwys sgiliau yn y Gymraeg), a lefelau'r buddsoddiad mewn hyfforddiant a datblygu'r gweithlu. Nododd yr Arolwg Sgiliau Cyflogwyr yn 2013 bod diffyg sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig yn broblem mewn ychydig dros chwarter o'r holl fylchau sgiliau.

Yn 2013 cynhaliwyd arolwg ymhlith dros 4,000 o gyflogwyr yng Nghymru a weithredai mewn wyth sector i ddarparu gwybodaeth fanwl gywir a dibynadwy am anghenion cyflogwyr o ran sgiliau Cymraeg. Yn ôl yr arolwg, amcangyfrifai'r cyflogwyr fod gan bron chwarter yr holl staff

sgiliau Cymraeg ar ryw lefel neu'i gilydd, a bod 14 y cant o'r holl staff yn defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith (Llywodraeth Cymru 2014b).

Traean o'r siaradwyr Cymraeg sydd mewn gwaith a ddywedodd nad oeddent yn siarad yr iaith gyda chydweithwyr, tra nododd y gweddill eu bod yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr o leiaf weithiau. Roedd bron i un o bob pum siaradwr Cymraeg sydd yn gweithio yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr bob amser.


Rhaid nodi nad oedd y cwestiwn hwn yn gwahaniaethu ar sail cyd-destun sgysiau ymysg cydweithwyr, hynny yw, a ydynt yn sgysiau am faterion sydd yn benodol i'r swydd ('iaith gwaith'), sgysiau anffurfiol ('iaith yn y gwaith'), neu'r ddau. Nid yw chwaith yn bosibl dadansoddi yn ôl nifer y cydweithwyr sydd yn siarad Cymraeg o fewn y gweithle hwnnw.

O ganolbwyntio ar siaradwyr Cymraeg rhugl yn unig, roedd y ganran sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr bob amser yn cynyddu yn sylweddol, gyda 35 y cant yn gwneud hynny bob amser. Roedd hanner siaradwyr rhugl yn siarad Cymraeg fel arfer neu weithiau gyda chydweithwyr. Er mai canran fechan o siaradwyr nad ydynt yn rhugl oedd yn siarad yn gyson a'u cydweithwyr yn Gymraeg, roedd 42 y cant yn dweud eu bod yn gwneud hynny weithiau.

Roedd y rhai hynny sydd fwyaf cartrefol wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn debygol iawn o gyfathrebu yn gyson â'u cydweithwyr yn Gymraeg, gyda 58 y cant yn siarad Cymraeg bob amser, a 26 y cant fel arfer. Roedd 42 y cant o bobl sydd yn dweud eu bod fwyaf cartrefol wrth ddefnyddio Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg weithiau yn y gweithle gyda chydweithwyr.

Roedd 81 y cant o siaradwyr Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau lle y bo'r cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau ar waith y busnes. Roedd y ganran ychydig yn is ymhlith gweithwyr nad oedd eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylchiadau anffurfiol, tra'r oedd 51 y cant yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr ond nad yw'r cyflogwr yn gefnogol i'r iaith. Ymhlith y gweithwyr nad oedd eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg, roedd ychydig dros hanner yn siarad Cymraeg â'u cydweithwyr o leiaf weithiau.

Ffigur 38: Cefnogaeth cyflogwr yn ôl iaith siarad yn y gwaith




Cefnogaeth cyflogwr i'r defnydd o'r Gymraeg

Roedd siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio yn y sector cyhoeddus ychydig yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau, o'i gymharu â siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio yn y sector preifat a'r trydydd sector. Er nad oedd y gwahaniaeth yn sylweddol rhwng y sectorau, roedd canran uwch yn y sector cyhoeddus yn siarad Cymraeg bob amser gyda'u cydweithwyr, sef 21 y cant o'i gymharu ag 16 y cant yn y sector preifat a 12 y cant yn y trydydd sector.

Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl, a'r rhai 45 oed a throsodd, yn fwy tebygol o siarad Cymraeg â'u cydweithwyr, tra'r oedd canran uchel, 46 y cant, o siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn siarad Cymraeg o leiaf weithiau gyda'u cydweithwyr.


Ffigur 39: Canrannau sydd yn siarad Cymraeg gyda’u cydweithwyr, yn ôl oedran a rhuglder



Isod ceir ffigur sydd yn dangos canran y siaradwyr Cymraeg a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr yn ôl yr ardal awdurdod lleol ble mae'r ymatebwyr yn byw. Dylid cofio nad yw lleoliad cartref unigolyn o reidrwydd yn cyfateb i'w lleoliad gwaith.


Mewn 13 o'r 22 ardal awdurdod lleol nododd dros hanner yr ymatebwyr i'r arolwg eu bod yn defnyddio'r Gymraeg o leiaf weithiau gyda chydweithwyr. Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, dywedodd naw o bob 10 siaradwr Cymraeg sydd mewn gwaith eu bod yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr o leiaf weithiau. Roedd y ganran a ddywedodd nad oeddent yn siarad unrhyw Gymraeg gyda chydweithwyr ar ei huchaf yn yr ardaloedd hynny lle y mae canran y siaradwyr Cymraeg hefyd ar ei hisaf. Ym Mlaenau Gwent, roedd tri chwarter o'r holl siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio byth yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr, gyda chanran debyg yng Nghasnewydd.

Ffigur 40: Canran sydd yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr yn ôl ardal awdurdod lleol



Roedd patrwm tebyg ymysg siaradwyr Cymraeg sydd yn gweithio wrth iddynt siarad â phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad, gyda'r canrannau uchaf yn gwneud hynny yn yr ardaloedd lle mae canran y siaradwyr Cymraeg ar ei uchaf. I'r gwrthwyneb, prin oedd defnydd siaradwyr Cymraeg o'r Gymraeg yn y gwaith gyda phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad yng Nghasnewydd, Blaenau Gwent a Sir Fynwy, gyda chwarter neu lai yn siarad Cymraeg o leiaf weithiau gyda phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad.

Ffigur 41: Canran sydd yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad yn ôl ardal awdurdod lleol




Roedd bron i ddau draean o'r holl siaradwyr Cymraeg, pa bynnag mor rhugl ydynt, yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad tra'u bod yn y gwaith, gydag ychydig dros chwarter yn ei defnyddio bob amser neu fel arfer yn rhinwedd eu gwaith.

Siaradwyr Cymraeg rhugl oedd fwyaf tebygol o siarad Cymraeg â phobl tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad, gyda bron i naw o bob deg yn siarad Cymraeg o leiaf weithiau o'i gymharu â 41 y cant o'r rhai sydd ddim yn rhugl. Roedd 47 y cant o'r siaradwyr rhugl yn siarad Cymraeg bob amser neu fel arfer â phobl y tu allan i'w cwmni neu eu sefydliad.

O edrych ar yr wybodaeth hon yn ôl ble y dysgodd unigolion siarad Cymraeg a'u rhuglder, ceir patrwm sydd ychydig yn wahanol i'r arfer. Fel arfer, mae cyswllt amlwg rhwng defnydd unigolyn a ble y dysgodd yr unigolyn hwnnw i siarad Cymraeg, gyda'r rhai a ddysgodd gartref lawer yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg na'r rhai a ddysgodd mewn ysgol. Er bod 55 y cant o siaradwyr rhugl a ddysgodd gartref yn siarad Cymraeg bob amser neu fel arfer gyda phobl allanol yn rhinwedd eu swydd, roedd 23 y cant o'r bobl rugl a ddysgodd i siarad Cymraeg mewn ysgol feithrin, 19 y cant a ddysgodd mewn ysgol gynradd, 33 y cant a ddysgodd mewn ysgol uwchradd a 56 y cant a ddysgodd mewn coleg neu brifysgol hefyd yn defnyddio'r Gymraeg yn rhinwedd eu gwaith.

Ffigur 42: Canran y siaradwyr Cymraeg rhugl sydd yn siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'w cwmni neu'r sefydliad yn ôl ble y dysgwyd y Gymraeg



Mae amlder defnydd iaith yr unigolyn hefyd i'w weld yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg gyda phobl y tu allan i'r cwmni neu'r sefydliad wrth ymwneud â'u gwaith, gyda bron hanner o'r rhai sydd yn defnyddio'r Gymraeg bob dydd yn siarad Cymraeg bob amser neu fel arfer â phobl allanol, o gymharu â 4 y cant sydd yn siarad bob wythnos ac 1 y cant yn llai aml na hynny. Gall hyn, o bosibl, fod yn gysylltiedig â hyder unigolion, hynny yw, os nad ydynt yn ei defnyddio yn gyson yn eu bywyd pob dydd, nid ydynt mor hyderus yn ei defnyddio yn gyson yn rhinwedd eu swydd, neu gall fod oherwydd diffyg arfer wrth ymwneud â phobl sydd yn siarad Cymraeg yn rhinwedd eu swydd.


Ychydig o wahaniaeth oedd rhwng atebion pobl yn ôl y sector y maent yn gweithio ynddo, gyda thua chwarter yn y sector preifat a chyhoeddus yn defnyddio'r Gymraeg bob amser neu fel arfer gyda phobl y tu allan i'w sefydliad.

O ran defnydd ysgrifenedig o'r Gymraeg yn y gweithle, nododd bron i hanner eu bod yn ysgrifennu yn y Gymraeg yn eu gwaith. Siaradwyr Cymraeg a nododd bod ganddynt allu i ysgrifennu'n dda iawn oedd fwyaf tebygol o ysgrifennu yn y Gymraeg yn y gweithle, 81 y cant yn ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg, gyda thros hanner yn gwneud bob amser neu fel arfer.

Roedd Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 yn dangos bod 66 y cant o siaradwyr Cymraeg a oedd yn gallu ysgrifennu yn dda iawn yn defnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig yn y gweithle, gyda 38 y cant yn ei defnyddio yn rheolaidd. Mae hyn yn is na'r gyfran yn 2013-15.

Roedd y ganran a nododd eu bod yn gallu ysgrifennu Cymraeg yn dda a'u bod yn ysgrifennu yn y Gymraeg yn y gwaith o leiaf weithiau hefyd yn uwch yn 2013-15: 51 y cant o'i gymharu â 40 y cant yn 2004-06, a gwnaeth y ganran a nododd nad ydyn nhw'n gallu ysgrifennu yn dda aros yn weddol gyson, gyda 27 y cant yn ysgrifennu yn y Gymraeg yn y gwaith o leiaf weithiau.

Ffigur 43: Ysgrifennu yn y gwaith yn ôl gallu ysgrifennu



Mae'n ymddangos hefyd bod yr unigolion hynny sydd yn gweithio i gyflogwyr sydd yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes lawer yn fwy tebygol o ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg. Roedd 64 y cant yn ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg yn y gwaith o leiaf weithiau. Er hyn, roedd bron i draean yn dweud eu bod yn ysgrifennu rhywbeth yn y Gymraeg yn eu gwaith o leiaf weithiau, er nad oeddent o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r iaith.


Gofynnwyd i siaradwyr Cymraeg a oedd yn gweithio a oeddent o'r farn fod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg o fewn y busnes. Roedd bron i dri allan o bump o'r farn fod

eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol, gyda thros un o bob pump o'r farn eu bod yn gefnogol i'r defnydd ar lefel anffurfiol yn unig o fewn y busnes.

Nid oedd y farn hon yn amrywio llawer ar sail rhuglder, er bod ychydig yn fwy o siaradwyr rhugl o'r farn bod eu cyflogwyr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar waith y busnes. Roedd y farn, er hyn, yn amrywio mwy wrth edrych ar y sector y mae siaradwyr Cymraeg yn gweithio ynddo a maint y sefydliad.

Roedd bron i dri chwarter y gweithwyr yn y sector cyhoeddus o'r farn fod eu cyflogwr yn gefnogol i ddefnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg o fewn y busnes o'i gymharu â 41 y cant yn y sector preifat. Er hyn, dim ond ychydig dros un o bob deg yn y sector preifat oedd o'r farn nad oedd eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd gweithwyr mewn sefydliadau mwy o faint, hynny yw, â 50 aelod o staff neu fwy, ychydig yn fwy tebygol o ystyried bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg ym mhob agwedd ar waith y busnes.

Ffigur 44: Canfyddiad am agwedd cyflogwyr tuag at yr iaith Gymraeg, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth a gweithredoedd y cyflogwyr




Dyweddod un o bob pump eu bod wedi cael cynnig rhywbeth, megis bathodyn, gan eu cyflogwr i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Roedd y ganran yn cynyddu ychydig, ond nid yn sylweddol, ymysg siaradwyr Cymraeg rhugl. Roedd unigolion sydd yn gweithio i sefydliad mwy o faint o ran nifer aelodau staff bron i dair gwaith yn fwy tebygol nag unigolion sydd yn gweithio i sefydliadau llai o gael cynnig bathodyn neu debyg i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Roedd o leiaf un o bob deg siaradwr Cymraeg ym mhob ardal awdurdod lleol wedi cael cynnig rhywbeth i'w wisgo i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg heblaw am y rhai oedd yn byw mewn pum ardal awdurdod lleol, sef Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Sir y Fflint a Sir Fynwy.

Lle bo cyflogwr wedi cynnig bathodyn neu rywbeth arall i'w weithwyr er mwyn dangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg, roedd bron i bob un o'r farn bod eu cyflogwr yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n bosibl fod ymatebwyr wedi dod i'r farn yma am eu cyflogwr oherwydd eu bod wedi cael cynnig rhywbeth i'w wisgo i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg megis bathodyn. Er hyn, roedd 78 y cant o ymatebwyr nad oedd wedi cael cynnig rhywbeth i'w wisgo i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg hefyd o'r farn fod eu cyflogwr yn gefnogol i'w defnydd, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol yn unig.

Roedd gweithwyr sydd yn siarad Cymraeg yn y sector cyhoeddus bron i dair gwaith yn fwy tebygol na gweithwyr y sector preifat o gael cynnig rhywbeth gan eu cyflogwyr i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg.

Ffigur 45: Canrannau y cynigiwyd iddynt rywbeth i ddangos eu bod yn gallu siarad Cymraeg, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth, a rhuglder



Roedd un o gwestiynau olaf yr arolwg yn gofyn i unigolion a oedd sgiliau Cymraeg wedi eu nodi yn eu disgrifiad swydd. O'r siaradwyr Cymraeg a atebodd y cwestiwn hwn, nododd 11 y cant nad oedd ganddynt ddisgrifiad swydd o gwbl.


O'r rhai hynny oedd â disgrifiad swydd, roedd bron un o bob pump yn dweud bod gofynion sgiliau iaith Gymraeg hanfodol o fewn eu disgrifiad swydd. Nododd 26 y cant bod sgiliau iaith Gymraeg yn ddymunol o fewn y disgrifiad, a dywedodd 56 y cant nad oedd unrhyw ofynion o ran y Gymraeg yn eu disgrifiad swydd.

Yn ddaearyddol, roedd y ganran uchaf o bobl oedd â swydd ddisgrifiad yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ofynnol (hanfodol neu ddymunol) ar ei huchaf yn yr ardaloedd lle'r oedd y canrannau uchaf o'r boblogaeth yn gallu'r Gymraeg, megis Ynys Môn, Gwynedd a Cheredigion. Fodd bynnag roedd canrannau sylweddol o weithwyr sydd â gofynion sgiliau Cymraeg yn eu disgrifiadau swydd yn byw mewn ardaloedd megis Caerdydd, 52 y cant, Sir Ddinbych, 52 y cant, a Sir Benfro, 50 y cant, yn ogystal.

Nid oedd llawer o wahaniaeth rhwng y gwahanol grwpiau oedran o ran p'un a yw disgrifiadau swydd yn cynnwys y Gymraeg ai peidio, ond roedd gweithwyr yn y sector

cyhoeddus dros dair gwaith yn fwy tebygol o fod â gofynion sgiliau Cymraeg yn rhan o ddisgrifiad swydd na gweithwyr yn y sector preifat. Roedd y gwahaniaeth yn fwy rhwng y rhai oedd â sgiliau Cymraeg hanfodol o fewn disgrifiad swydd: 6 y cant yn y sector preifat o'i gymharu â 26 y cant yn y sector cyhoeddus.

Ffigur 46: Canran disgrifiadau swydd siaradwyr Cymraeg sydd â sgiliau iaith Gymraeg wedi'u nodi ynddynt, yn ôl maint y sefydliad, sector cyflogaeth, a rhuglder



17. Llyfryddiaeth

Aitchison, J. a Carter, H. 1985. *The Welsh Language: An Interpretative Atlas: 1961-1981*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Aitchison, J. a Carter, H. 1994. *A Geography of the Welsh Language 1961-1991*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Aitchison, J. a Carter, H. 2000. *Language, economy and society : the changing fortunes of the Welsh language in the twentieth century*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Aitchison, J. a Carter, H. 2004. *Spreading the Word: The Welsh Language 2001*. Talybont: Y Lolfa.

BBC Cymru Wales, S4C a Llywodraeth Cymru. 2013. *Ymchwilio i ddefnydd iaith siaradwyr Cymraeg yn eu bywyd bob dydd* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/research/exploring-welsh-lang-in-daily-lives/?lang=cy> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Bwrdd yr Iaith Gymraeg. 2008. *Arolygon Defnydd Iaith 2004-06* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330033232/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/Arolygon%20Defnydd%20Iaith%202004-06.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Bwrdd yr Iaith Gymraeg. 2009a. *Arolwg Omnibws Cymru Beaufort Research: Agweddau at y defnydd o'r Gymraeg gan fusnesau Mawrth 2005* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330020710/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/B2510-1+WLB+Report+Tabulations+and+Questions.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Bwrdd yr Iaith Gymraeg. 2009b. *Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort Research: agweddau at wasanaethau Cymraeg cyrff cyhoeddus Ebrill 2005* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330020723/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/B2550-1+WLB+report+tabs+and+questions+Cywiredig.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Bwrdd yr Iaith Gymraeg. 2009c. *Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort Research: adnabyddiaeth o'r logo iaith Gwaith Mawrth 2007* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330020427/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/B2750-1+WLB+Report+Tabs+and+Questions.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Bwrdd yr Iaith Gymraeg. 2009ch. *Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort Research: agweddau at wasanaethau iechyd Cymraeg Hydref 2008* [Ar-lein]. Ar gael yn: [http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330020730/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/B2850-2+Arolwg+Omnibws+o+siaradwyr+Cymraeg+\(2008\)+Bwrdd+yr+Iaith.pdf](http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330020730/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/B2850-2+Arolwg+Omnibws+o+siaradwyr+Cymraeg+(2008)+Bwrdd+yr+Iaith.pdf) [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Bwrdd yr Iaith Gymraeg. 2009d. *Arolwg Omnibws Cymru Beaufort Research: Agweddau at y Gymraeg Tachwedd 2008* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120330020429/http://www.byig-wlb.org.uk/cymraeg/cyhoeddiadau/pages/publicationitem.aspx?puburl=/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/B2810-4+WLB+-+Wales+Omnibus+Report+November+2008.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Bwrdd yr Iaith Gymraeg. 2012. *Darlun ystadegol o sefyllfa'r Gymraeg* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.comisiynyddygyymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/Darlun%20ystadegol%20Cymraeg.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Cofnodion Cenedlaethol yr Alban. 2015. *Scotland's Census 2011: Gaelic report* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.scotlandscensus.gov.uk/analytical-reports> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Cyngor ar Bopeth. 2015. *Hefyd ar gael yn Gymraeg: deall y defnydd a'r diffyg defnydd o wasanaethau Cymraeg* [Ar-lein]. Ar gael yn:

<https://www.citizensadvice.org.uk/cymraeg/about-us/policy/policy-research-topics/citizens-advice-cymru-wales-policy-research/english-by-default-understanding-the-use-and-non-use-of-welsh-language-services/> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Cyngor Celfyddydau Cymru. 2010. *Arolwg y Celfyddydau yng Nghymru 2010* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.artscouncilofwales.org.uk/what-we-do/research/latest-research/y-celfyddydau-yng-nghymru-2010?diablo.lang=cym> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

The Economic and Social Research Institute a Foras na Gaeilge. 2015. *Attitudes towards the Irish Language on the Island of Ireland* [Ar-lein]. Ar gael yn:

<http://www.esri.ie/publications/page/2/> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

*Eusko Jaurlaritz*a. 2013. *Encuesta Sociolingüística 2011* [Ar-lein]. Ar gael yn:

http://www.euskara.euskadi.eus/r59-738/es/contenidos/informacion/argitalpenak/es_6092/ikuspegi_sozio_linguis.html#encuestas [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

*Eusko Jaurlaritz*a. 2014. *V Mapa Soziolinguistikoa 2011 / V Mapa sociolingüístico del euskera* [Ar-lein]. Ar gael yn: http://www.euskara.euskadi.eus/r59-738/es/contenidos/informacion/argitalpenak/es_6092/ikuspegi_sozio_linguis.html#mapas

[Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Generalitat de Catalunya. 2014. *Enquesta d'usos lingüístics de la població* [Ar-lein]. Ar gael yn:

http://llengua.gencat.cat/ca/serveis/informacio_i_difusio/dades_i_estudis/dades_estadistiques/estadistica_poblacio/ [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Instituto Galego de Estatística. 2014. *Enquisa de condicións de vida das familias:*

Coñecemento e uso do galego [Ar-lein]. Ar gael yn:

http://www.ige.eu/estatico/estat.jsp?ruta=html/gl/ecv/ECV_ResumoResultados_galego.html [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2007. *Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg* [Ar-lein].

Ar gael yn: <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/150203-defining-schools-welsh-medium-cy.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2012a. *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012-17* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/publications/wlstrategy2012/?lang=cy> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2012b. *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/welshmededstrat/?lang=cy> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2012c. *Cyfrifiad 2011: Y Canlyniadau Cyntaf am yr Iaith Gymraeg* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/docs/statistics/2012/121211sb1182012cy.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2013. *Trosglwyddo'r Gymraeg ac Aelwydydd* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/docs/statistics/2013/130628-welsh-language-households-transmission-cy.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2014a. *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw Mlaen* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/policy/living/moving-forward/?lang=cy> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2014b. *Anghenion o ran Sgiliau Cymraeg mewn Wyth Sector* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/docs/caecd/research/2014/140429-welsh-language-skills-needs-eight-sectors-cy.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2015a. *Canlyniadau'r cyfrifiad ysgolion, 2015* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/docs/statistics/2015/150723-school-census-results-2015-cy.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2015b. *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Adroddiad blynyddol 2014-15* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/docs/dcells/publications/150715-welsh-medium-annual-report-cy.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru. 2015c. *Defnyddio'r Gymraeg yn y Gymuned* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/docs/caecd/research/2015/151007-welsh-language-use-community-research-study-cy.pdf> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. 2015a. *Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14: Arolwg Defnydd Iaith* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/Welsh-language-use-survey/?lang=cy> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg. 2015b. *Cytundeb fframwaith rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg: Ystadegau ac Ymchwil Gymdeithasol* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://llyw.cymru/topics/welshlanguage/commissioner/?lang=cy> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Llywodraeth yr Alban/*Riaghaltas na h-Alba*. 2011. *Attitudes towards the Gaelic Language* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://www.gov.scot/Publications/2011/08/04160631/0> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

Y Swyddfa Gymreig. 1995. *Arolwg Cymdeithasol Cymru 1992: Adroddiad ar yr Iaith Gymraeg* [Ar-lein]. Ar gael yn: <http://welshgovernmentpublications.soutron.net/Publications/Library/Catalogues/Controls/Download.aspx?id=32428> [Cyrchwyd: 25 Tachwedd 2015].

18. Atodiad A: Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Cefndir

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-2015 yn barhad o ymchwil a wnaed yn wreiddiol ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2004 a 2006 i'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Fe'i comisiynwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg i'w gynnal fel rhan o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol Cymru gan TNS-BMRB a Beaufort Research ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau a nodir yma yn seiliedig ar y sampl o gyfeiriadau a roddwyd i gyfwelwyr rhwng mis Ebrill 2013 a mis Mawrth 2015.

Ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru, dewiswyd ychydig dros 49,000 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Cod Post Defnyddwyr Bach y Post Brenhinol. Ymwelodd cyfwelwyr â phob cyfeiriad, dewiswyd un oedolyn (16 oed a throsodd) ar hap ar yr aelwyd a chynhaliwyd cyfweiliad wyneb-yn-wyneb 25 munud o hyd gydag ef. Cwblhawyd cyfanswm o 29,056 o gyfweiliadau. Mae hyn yn cyfateb i gyfradd ymateb o 70 y cant yn 2013-14 a 64 y cant yn 2014-15.⁴

Rhoddyd holiadur i ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru ar gyfer pob siaradwr Gymraeg ar yr aelwyd iddynt gael ei lenwi eu hunain. Yn arolwg 2013-15, nodwyd 63,561 o aelodau unigol o aelwydydd (tair oed a throsodd), pennwyd 16,967 o siaradwyr Gymraeg a dychwelodd 7,175 ohonynt holiadur wedi'i gwblhau.

Mae'r tabl isod yn dangos y gyfradd dderbyn, y gyfradd ddychwelyd a'r gyfradd ymateb ar gyfer holiadur yr oedolion a'r holiadur plant a phobl ifanc.

⁴ Ceir manylion am sut y cyfrifir maint y sampl yn adroddiad technegol Arolwg Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft, nid yw'r gyfradd ymateb derfynol yn cynnwys cyfeiriadau heb eu meddiannu.

Cyfraddau derbyn, dychwelyd ac ymateb cyffredinol 2013-15 (ac eithrio ymatebwyr anghymwys)

	Cymwys	Derbyn	Dychwelyd	Cyfradd dderbyn	Cyfradd ddychwelyd	Cyfradd ymateb
Oedolion	11,976	9,889	5,689	83%	58%	48%
Plant a phobl ifanc	4,460	3,586	1,486	80%	41%	33%
CYFANSWM	16,436	13,475	7,175	82%	53%	44%

Dyma'r diffiniadau a ddefnyddiwyd:

Y Gyfradd Dderbyn: cyfran yr unigolion cymwys a dderbyniodd holiadur;

Y Gyfradd Ddychwelyd: cyfran yr holiaduron a dderbyniwyd, a gwblhawyd ac a ddychwelwyd;

Y Gyfradd Ymateb: cyfran yr unigolion cymwys a gwblhaodd ac a ddychwelodd holiadur (yn cyfateb i'r gyfradd dderbyn wedi ei lluosu â'r gyfradd ddychwelyd).

Oherwydd y ffordd y pennwyd pobl i gymryd rhan yn yr arolwg, darparwyd gwybodaeth am siaradwyr Cymraeg ar yr aelwyd gan yr ymatebydd ar ran aelodau eraill yr aelwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl i holiadur gael ei roi i unigolion nad ydynt yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg.

Er mwyn gwneud yn iawn am yr anghysondeb posibl hwn, cafodd cwestiwn ei gynnwys ar ddechrau'r holiadur yn gofyn i bawb a lenwodd yr Arolwg Defnydd Iaith nodi a yw'n gallu siarad Cymraeg. Gofynnwyd i unrhyw un a atebodd gan ddweud nad oedd yn siarad Cymraeg ddychwelyd yr holiadur heb ateb unrhyw gwestiynau eraill, er mwyn nodi nad oeddent mewn gwirionedd yn gymwys ar gyfer yr Arolwg Defnydd Iaith. Nododd 520 o ymatebwyr nad oeddent, mewn gwirionedd, yn siarad Cymraeg, ac felly ni wnaethant gymryd rhan yn yr arolwg. Mae'r rhain wedi eu tynnu allan o'r tabl uchod.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y cynhaliwyd yr Arolwg Defnydd Iaith, gweler yr [adroddiad technegol](#) ar ei gyfer.

Am ragor o wybodaeth ynghylch Arolwg Cenedlaethol Cymru a sut y'i cynhaliwyd, gweler tudalennau gwe yr [Arolwg Cenedlaethol](#) neu [adroddiad technegol](#) Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am Arolygon Defnydd Iaith 2004-06 a'u canlyniadau yn yr adroddiad ar [Arolygon Defnydd Iaith 2004-06](#).

Dehongli'r canlyniadau

Nid yw'r canrannau a nodir yn y datganiad hwn ond yn seiliedig ar yr ymatebwyr hynny a roddodd ateb i'r cwestiwn perthnasol. Mae atebion coll yn broblem gyffredin gyda holiaduron a lenwir gan yr ymatebwyr eu hunain a gall hyn ddigwydd am sawl rheswm, gan gynnwys pobl yn gwrthod neu'n methu ag ateb cwestiwn penodol ac achosion pan nad oedd y cwestiwn yn berthnasol i'r ymatebydd.

Lle y nodwyd cysylltiad rhwng dau ffactor, nid yw hyn o anghenraid yn golygu bod un yn [achosi'r](#) llall. Bydd angen dadansoddi'n fanylach i benderfynu ar hyn.

Caiff canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru eu pwysoli i unioni'r tebygolrwydd o ddethol mewn modd anghyfartal a diffyg ateb gwahaniaethol (h.y. i sicrhau bod dosbarthiad oedran a rhyw y set ddata derfynol yn cyfateb i boblogaeth Cymru fel y'i pennwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru).

Adroddiad Ansawdd

Mae [Adroddiad Ansawdd](#) cryno ar gael, sydd yn cynnwys gwybodaeth fanylach am ansawdd yr arolwg yn ogystal â chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i lunio'r canlyniadau.

Amrywioldeb samplu

Mae amcangyfrifon o'r Arolwg Defnydd Iaith yn agored i rywfaint o ansicrwydd. Mae rhan o'r ansicrwydd yn deillio o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geir pe bai'r boblogaeth gyfan yn cael ei holi. Gelwir hyn yn gyfeiliornad samplu. Gellir defnyddio cyfyngau hyder i roi syniad o faint y cyfeiliornad samplu.

Mae'r canlyniadau a drafodir yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â chanlyniadau eraill yr arolwg, yn cael eu cyflwyno mewn cyfres o dablau [StatsCymru](#) ynghyd â'u cyfyngau hyder o 95 y cant. Gellir cyfrifo cyfwng hyder o amgylch amcangyfrif arolwg ac mae'n rhoi amrediad sydd yn debygol o gynnwys y gwerth gwirioneddol. Mewn 95 y cant o samplau arolwg, bydd y cyfwng hyder o 95 y cant yn cynnwys y ffigur 'gwirioneddol' ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigur y byddem yn ei gael pe byddai'r arolwg yn cwmpasu'r boblogaeth gyfan). Yn gyffredinol, po leiaf yw maint y sampl y mwyaf yw'r cyfwng hyder.

Gellir defnyddio cyfyngau hyder hefyd er mwyn helpu i ddweud a oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng dau grŵp. Fel canllaw bras i ddehongli, wrth gymharu dau grŵp, os yw'r cyfyngau hyder o amgylch yr amcangyfrifon yn gorgyffwrdd, gellir tybio nad yw'r amcangyfrifon yn arwyddocaol yn ystadegol. Nid yw'r dull hwn mor drylwyr â chynnal prawf ystadegol ffurfiol, ond mae'n syml, fe'i defnyddir yn eang, ac mae'n gymharol gadarn. Cyfrifwyd y cyfyngau hyder o 95 y cant a ddangosir yn nhablau StatsCymru. Addaswyd y cyfyngau hyn i ystyried dyluniad yr arolwg ac maent yn fwy nag y byddent pe bai'r arolwg yn seiliedig ar sampl syml a ddewiswyd ar hap.

Er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrifon o Arolwg Cenedlaethol Cymru a nodir yn y bwletin hwn yn gadarn, rydym hefyd wedi cyfrifo'r cyfernod amrywiad (CV) ar gyfer pob amcangyfrif. Cyfrifir y CV fel y cyfeiliornad safonol wedi'i luosi â 100 a'i rannu â'r cymedr. Nid ystyrir bod amcangyfrifon gyda CV o 20 neu fwy yn ddibynadwy at ddibenion ymarferol.

Rhoddyd y codau lliw canlynol, yn ôl y CV, i'r canlyniadau a gyflwynir yn nhablau StatsCymru.

	Mae'r amcangyfrif yn gywir	$0 \leq CV < 5$
	Mae'r amcangyfrif yn eithaf cywir	$5 \leq CV < 10$
	Ystyrir bod yr amcangyfrif yn dderbyniol	$10 \leq CV < 20$
	Nid yw'r amcangyfrif yn ddibynadwy	$CV \geq 20$
-	Amcangyfrif yn cael ei atal am fod llai na 30 o ymatebion	

Fel gydag unrhyw arolwg, mae Arolwg Cenedlaethol Cymru hefyd yn agored i amrywiaeth o ffynonellau cyfeiliornadau eraill: er enghraifft, oherwydd diffyg ateb; oherwydd efallai na fydd ymatebwyr yn dehongli'r cwestiynau fel y bwriedir iddynt wneud hynny neu'n ateb yn anghywir; ac oherwydd y gall cyfeiliornadau ymddangos wrth i ddata'r arolwg gael eu prosesu. Gelwir y mathau hyn o gyfeiliornad yn gyfeiliornad nad yw'n gyfeiliornad samplu, ac fe'u trafodir yn yr Adroddiad Ansawdd.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Yn yr achosion hynny lle mae'r testun yn nodi nad yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol, rydym wedi sicrhau bod y cyfyngau hyder ar gyfer y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Os nad yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd, mae hyn yn awgrymu bod y gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol (ond fel y nodir uchod, nid yw mor fanwl â

chynnal prawf ystadegol ffurfiol), h.y. bod llai na 5 y cant (1 mewn 20) o siawns o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng yr un ddau grŵp yn y boblogaeth ehangach.

Mae'n llai tebygol y bydd cadarnhau a yw dau gyfwng hyder yn gorgyffwrdd yn arwain at gasgliadau bod gwahaniaethau gwirioneddol rhwng grwpiau o gymharu â phrawf ystadegol ffurfiol. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at "ganlyniadau negyddol ffug": casgliadau anghywir nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fydd gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at "ganlyniadau cadarnhaol ffug": casgliadau anghywir bod gwahaniaeth pan nad oes gwahaniaeth mewn gwirionedd. Mae cynnal llawer o gymariaethau yn cynyddu'r siawns y ceir canlyniadau ffug. Felly, pan wneir cymariaethau, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan ei fod yn lleihau'r siawns hwn (ond nid yn ei ddileu).

Adroddiad Technegol

Caiff gwybodaeth fanylach am fethodoleg yr arolwg ei nodi yn [Adroddiad Technegol](#) yr arolwg.

Diwygiadau

Mae gwybodaeth am ein polisi diwygio ar gael [yma](#).

Polisi rhyddhau

Ceir gwybodaeth am y broses o ryddhau canlyniadau newydd ar [dudalennau gwe](#) ystadegau Llywodraeth Cymru.

Argaeledd setiau data

Gellir gweld y data sydd yn sail i'r ffigurau a'r tablau yn y datganiad hwn mewn cyfres o daenlenni pwnc penodol ar [StatsCymru](#).

Caiff fersiwn anhysbys o'r set ddata flynyddol (y mae rhywfaint o wybodaeth wedi'i dileu ohoni i sicrhau cyfrinachedd), ynghyd â dogfennau ategol, eu cadw yn [Archif Ddata'r DU](#) ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau hyn. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â ni (gweler y manylion cyswllt y tu mewn i'r clawr).

Defnydd pellach o'r canlyniadau

Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu defnyddio gan adrannau polisi Llywodraeth Cymru a chan Gomisiynydd y Gymraeg i helpu gyda'r gwaith o fonitro'r defnydd o'r Gymraeg yng

Nghymru. Mae'r canlyniadau hefyd yn berthnasol i'r holl sefydliadau a'r unigolion eraill sydd â diddordeb mewn cael gwell dealltwriaeth o batrymau defnydd iaith ar draws Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau ac asiantaethau sydd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, y sector addysg, ac ystod eang o sefydliadau sydd yn cyfrannu at y gwaith o hybu'r Gymraeg. Bydd y canlyniadau hefyd o ddiddordeb i rwydwaith cyfathrebwyr y Gwasanaethau Cyhoeddus, CommsCymru, ac i academyddion.

Adborth neu ragor o wybodaeth

Os oes gennych adborth yr hoffech ei roi am yr adroddiad hwn, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n [gwefan](#) neu cysylltwch â ni ar 029 2037 0373 neu drwy e-bostio dataiaithgymraeg@cymru.gsi.gov.uk neu post@comisiynyddygymraeg.cymru. Rydym yn croesawu sylwadau am ein cyhoeddiadau, er enghraifft ar eu cynnwys a'u diwyg.

Holiaduron

Mae copi o'r holiadur oedolion a'r holiadur plant a phobl ifanc i'w cael yn [Atodiad C](#).

19. Atodiad B: Faint o bobl yng Nghymru sydd yn siarad Cymraeg?

Cyfrifiad 2011 yw'r ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sydd yn gallu siarad Cymraeg. Nid nod yr Arolwg Defnydd Iaith oedd darparu ystadegau newydd ar nifer y bobl sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn hytrach, y nod oedd creu darlun o ba mor rhugl yw siaradwyr Cymraeg, a sut y maent yn defnyddio'r iaith.

Mae'r Cyfrifiad wedi casglu gwybodaeth am boblogaeth Cymru a Lloegr bob deng mlynedd ers 1801. Cyflawnwyd y Cyfrifiad diweddaraf yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2011.

Roedd Cwestiwn 17 yng Nghyfrifiad 2011 yn gofyn i bobl a oedd yn byw yng Nghymru:

17 A allwch ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

➔ Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r uchod

Dangosodd Cyfrifiad 2011 fod 19.0 y cant o bobl tair oed a throsodd sydd yn byw yng Nghymru yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Ddeng mlynedd ynghynt, y ffigur yng Nghyfrifiad 2001 oedd 20.8 y cant. Roedd ffigur 2001 yn gynnydd ar ffigur Cyfrifiad 1991, gan atal dirywiad a welwyd drwy gydol yr ugeinfed ganrif.

Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth hefyd yn casglu gwybodaeth am allu ymatebwyr i siarad Cymraeg a pha mor aml y maent yn gwneud hynny. Mae'r Arolwg yn cyfuno canlyniadau'r Arolwg o'r Llafurlu a ariennir gan Gymru, Lloegr a'r Alban.⁵ Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Blynyddol yn gofyn i ymatebwyr a ydynt yn gallu siarad Cymraeg ac, os felly, pa mor aml y maent yn ei siarad.


Mae'r cwestiwn am allu yn y Gymraeg a ddefnyddir yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Arolwg Cenedlaethol Cymru a'r Arolwg Defnydd Iaith yr un peth â'r cwestiwn a ddefnyddiwyd

⁵ Mae'r Arolwg o'r Llafurlu yn arolwg o amgylchiadau cyflogaeth poblogaeth y Deyrnas Unedig; mae hefyd yn casglu peth data demograffig sylfaenol. Yr Arolwg o'r Llafurlu yw'r arolwg rheolaidd mwyaf o aelwydydd yn y Deyrnas Unedig a cheir y mesuriadau swyddogol o gyflogaeth a diweithdra ohono.

yn y Cyfrifiad. Serch hynny, mae cyfran y bobl sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn uwch ym mhob un o'r arolygon hyn nag ydyw yn y Cyfrifiad.

Mae Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 yn dangos bod 24 y cant (677,800) o bob person tair oed a throsodd yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn cymharu â 19.0 y cant (562,000) yng Nghyfrifiad 2011, 28 y cant (824,100) yn yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth a 25 y cant (751,000) yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae'r ffigur isod yn dangos sut y mae'r niferoedd yn amrywio yn ôl oedran ar gyfer pob un o'r ffynonellau amgen hyn.

Ffigur 47: Canran pobl Cymru sydd yn siarad Cymraeg yn ôl oedran a ffynhonnell



Mae gwahaniaethau yn y ffordd y mae'r arolygon hyn a'r Cyfrifiad wedi'u cynnal yn debygol o fod wedi effeithio ar y canlyniadau. Rhoddodd y Cyfrifiad holiadur i bawb ei lenwi eu hunain, defnyddiodd Arolwg Cenedlaethol Cymru gyfweiliadau wyneb-yn-wyneb gydag un oedolyn 16 oed a throsodd. Mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn defnyddio rhai cyfweiliadau wyneb-yn-wyneb a rhai cyfweiliadau ffôn gydag oedolion 16 oed a throsodd. Efallai bod pobl yn fwy parod i ddweud eu bod yn siarad Cymraeg mewn arolygon a arweinir gan gyfweilydd.


Dylid hefyd cofio bod asesiad siaradwyr o ba mor dda y maent yn siarad iaith yn gallu bod yn eithaf goddrychol. I rai pobl, mae'r gallu i ddweud ychydig eiriau yn ddigon iddynt ddweud eu bod yn siarad yr iaith. Gall eraill, er eu bod yn siarad yr iaith yn rheolaidd, ddweud nad ydynt yn ei siarad os ydynt yn meddwl eu bod yn fwy cartrefol mewn iaith arall. Pan fo un cwestiwn yn wynebu ymatebwyr mewn arolwg statudol swyddogol, rhaid iddynt wneud penderfyniad pendant o ran p'un a ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Pan fo cyfwelydd yn bresennol, mae'n bosibl y bydd yr ymatebydd yn teimlo y gall ddisgrifio'i allu'n fanylach i'r cyfwelydd a gall y cyfwelydd annog ymatebwyr i ddweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, er mwyn iddynt allu rhoi rhagor o fanylion am eu gallu yn y cwestiynau i ddilyn. Yn wir, yn Arolwg Cenedlaethol Cymru, dywedwyd wrth gyfwelwyr am nodi pobl a oeddod cyn ateb (gan fod ganddynt rywfaint o allu i siarad Cymraeg) fel siaradwyr Cymraeg (tua 4 y cant), gan fod cwestiwn ar lefel eu gallu i ddilyn.

Am y rhesymau hyn, mae'n bosibl bod rhai ymatebwyr y nodwyd eu bod yn siarad Cymraeg yn Arolwg Cenedlaethol Cymru neu'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wedi nodi nad oeddent yn siarad Cymraeg wrth gwblhau holiadur y Cyfrifiad.

Un fantais o ran y Cyfrifiad yw bod y data yn ddibynadwy ar gyfer ardaloedd bach. Mae'r map sydd yn dilyn yn dangos dosbarthiad niferoedd y bobl a ddywedodd eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) yng Nghymru. Mae yna bron 2,000 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yng Nghymru ac mae gan bob un boblogaeth o tua 1,500. Mae'r map yn dangos bod y canrannau sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn uwch na'r cyfartaledd yn y rhan fwyaf o ardaloedd yn y Gogledd a'r Gorllewin (ac eithrio Sir y Fflint, Wrecsam a rhannau o Sir Benfro), ac ar ei uchaf mewn rhannau o Wynedd a rhannau o Ynys Môn, lle mae mwy na 70 y cant o'r boblogaeth yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r canrannau isaf sydd yn dweud eu bod yn gallu siarad yr iaith mewn lleoedd ar y ffin â Lloegr ac mewn rhai rhannau o dde Cymru (yn enwedig Sir Fynwy, Casnewydd a Blaenau Gwent).

Ffigur 48: Cyfran y bobl tair oed a throsodd sydd yn gallu siarad Cymraeg yn ôl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI), 2011

Cyfran y bobl (3 oed a throsodd) sy'n gallu siarad Cymraeg, fesul ACEHI, 2011



Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011

193.12-13
 Technoleg a Daearyddiaeth
 © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013.
 Rhif Trwydded yr Arolwg Ordnans 100021874.



Fel y nodwyd uchod, cafwyd gwahanol amcangyfrifon o ran canran y siaradwyr Cymraeg gan Arolwg Defnydd Iaith 2013-15 ac Arolwg Cenedlaethol Cymru (24 y cant a 25 y cant yn ôl eu trefn).

Y rheswm am y gwahaniaeth hwn yw bod ymatebwyr Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dweud pwy, yn eu barn hwy, sydd yn gallu siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Mae'r cwestiwn cyntaf yn holiadur yr Arolwg Defnydd Iaith, sydd i'w lenwi gan yr ymatebydd ei hun, yn ailadrodd y cwestiwn a ofynnwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, gan ofyn am allu unigolion wrth ddeall Cymraeg llafar, siarad Cymraeg, darllen Cymraeg ac ysgrifennu Cymraeg.

Datgelodd yr atebion i'r cwestiynau hyn nad oedd pawb yn gytûn â barn yr ymatebydd cyntaf ynghylch gallu aelodau eraill o'r aelwyd yn y Gymraeg. Er eu bod wedi'u nodi fel siaradwyr Cymraeg yn wreiddiol, dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg. O ganlyniad, bu i'r amcangyfrif a ddarparwyd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ostwng yn yr Arolwg Defnydd Iaith.

20. Atodiad C: Holiaduron



TNS BMRB



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

beaufortresearch

Arolwg Cenedlaethol Cymru - Arolwg Defnydd Iaith 2014-15

HOLIADUR AR GYFER OEDOLION OED 16+

Y cyfwelydd i lenwi:

RHIF CYFEIRNOD

RHIF PERSON

YR HOLIADUR I'W LENWI GAN

Mae'r holiadur hwn yn trafod yr iaith Gymraeg. Rydym am gael gwybod a ydych chi'n gallu siarad Cymraeg a'r mathau o sefyllfaoedd lle byddwch yn defnyddio'r Gymraeg. Bydd eich holl atebion yn cael eu trin yn gyfrinachol. Bydd eich atebion yn cael eu gwneud yn ddiennw fel na fydd neb yn gwybod bod y wybodaeth yn cyfeirio atoch chi, cyn iddynt gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg a fydd yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am yr arolwg hwn, gallwch gysylltu â'r tîm Arolwg Cenedlaethol ar 029 2082 6685 neu anfon neges e-bost at arolygon@cymru.gsi.gov.uk

Gobeithiaf yn fawr y gallwch gyfrannu. Dychwelwch eich holiadur yn yr amlen radbost a ddarperir, neu ei anfon i'r cyfeiriad ar ddiwedd yr holiadur.

Diolch yn fawr i chi ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,

Steven Marshall
Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru

AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL AR GYFER LLENWI'R HOLIADUR HWN

- Y person a enwir ar y dudalen yma ddylai lenwi'r holiadur.
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus a rhowch groes mewn blwch i nodi eich ateb.
- Dim ond un blwch y bydd yn rhaid i chi roi croes ynddo fel arfer ond darllenwch y cwestiynau'n ofalus gan y bydd angen i chi roi croes mewn mwy nag un blwch gyda rhai cwestiynau.
- Os byddwch yn rhoi croes yn y blwch anghywir neu yn newid eich meddwl, llenwch y blwch yn gyfan gwbl fel hyn ac yna rhowch groes yn y blwch ateb cywir.
- Defnyddiwch **inc du YN UNIG**.
- Atebwch y cwestiwn nesaf os nad yw'n dweud yn wahanol.
- Ar ôl i chi orffen, treuliwch ryw funud neu ddau yn sicrhau eich bod wedi ateb pob cwestiwn y dylech fod wedi'i ateb.
- Mae 5 tudalen i'r arolwg ac ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i chi ei gwblhau.

ADRAN 1: Sgiliau Iaith Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg

C1. A allwch chi ddeall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

Rhowch groes ym mhob blwch perthnasol

- Deall Cymraeg llafar
- Siarad Cymraeg
- Darllen Cymraeg
- Ysgrifennu Cymraeg
- Dim un o'r uchod

Os **NAD** ydych wedi rhoi croes yn y blwch 'Siarad Cymraeg' does dim rhagor o gwestiynau i'w hateb. Diolch i chi am gyfrannu. Dychwelwch yr holiadur yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur os gwelwch yn dda. Os ydych yn **GALLU** 'Siarad Cymraeg', ewch i C2.

C2. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau eich gallu i siarad Cymraeg?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Rwy'n rhugl yn Gymraeg
- Rwy'n gallu siarad cryn dipyn o Gymraeg
- Rwy'n gallu siarad ychydig o Gymraeg yn unig
- Rwy'n gallu dweud ychydig eiriau yn unig

C3. Ble yn bennaf dysgoch chi siarad Cymraeg?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Gartref, fel plentyn ifanc
- Yn yr ysgol feithrin (3-4 oed)
- Yn yr ysgol gynradd (5-10 oed)
- Yn yr ysgol uwchradd (11 oed a throsodd)
- Yn y coleg neu'r brifysgol (amser-llawn)
- Rhywle arall, gan gynnwys ar gwrs Cymraeg i Oedolion

Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod

C4. Pa mor dda oedd eich rhieni yn gallu siarad Cymraeg pan oeddech chi'n blentyn?

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Cymraeg Rhugl	Eithaf Rhugl	Rhywfaint o Gymraeg	Dim Cymraeg	Ddim yn gwybod	Amherthnasol
Tad	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mam	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C5. Pa iaith ydych chi'n ei siarad yn bennaf yn y sefyllfaoedd canlynol...

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg	Arall	Amherthnasol
Gartref?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yn yr ysgol, coleg neu brifysgol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gyda'ch ffrindiau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gyda'ch cymydog agosaf?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ar gyfer gweithgareddau bob dydd fel siopa neu fynd ar y bws?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C6. Gan feddwl am y sgwrs ddiweddaraf a gawsoch chi gyda rhywun nad yw'n perthyn i'ch teulu, pa iaith wnaethoch chi ei siarad?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Cymraeg
- Saesneg
- Arall

Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod

C7. Pa mor aml ydych chi'n siarad Cymraeg?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Bob dydd
- Bob wythnos
- Llai aml
- Byth

C8. Pa mor dda ydych chi'n gallu ysgrifennu Cymraeg?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Yn dda iawn
- Yn dda
- Ddim yn dda
- Dim o gwbl

C9. Pa iaith ydych chi'n ei defnyddio fel arfer i...

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg	Arall	Amherthnasol
Anfon neges destun o ffôn symudol at ffrind?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Anfon e-bost at ffrind?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ysgrifennu ar Facebook?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ysgrifennu ar Twitter?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C10. Beth oedd iaith eich addysg ar bob un o'r camau canlynol...

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Cymraeg yn unig	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Saesneg yn unig	Arall	Amherthnasol
Yn yr ysgol feithrin?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yn yr ysgol gynradd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yn yr ysgol uwchradd?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C11. Ydych chi'n ceisio defnyddio'r Gymraeg...

(e.e. drwy chwilio am, drwy ddewis neu drwy ofyn am opsiwn Cymraeg)

Rhowch groes mewn blwch ym mhob rhes

	Ydw, bob amser	Ydw, fel arfer	Ydw, weithiau	Nac ydw	Amherthnasol
Wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus? (e.e. eich cyngor sir)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
I lenwi ffurflenni swyddogol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os ydych wedi dewis 'Nac ydw' neu 'Amherthnasol' ar gyfer y ddau opsiwn yn C11 ewch yn syth i **C13**.

C12. Pa mor aml ydych chi'n llwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg...

(e.e. llwyddo i siarad â rhywun yn Gymraeg, neu i gael deunyddiau yn Gymraeg)

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Bob amser/ bron bob amser	Fel arfer	Weithiau	Byth	Amherthnasol/ Erioed wedi ceisio
Wrth ddelio â sefydliadau cyhoeddus? (e.e. eich cyngor sir)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
I lenwi ffurflenni swyddogol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C13. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, aethoch chi i ddiwyddiad neu weithgaredd...

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Do	Naddo	Ddim yn gwybod/ Ddim yn berthnasol
gymdeithasol neu ddiwylliannol wedi ei gynnal yn Gymraeg? (e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
chwaraeon wedi ei gynnal yn Gymraeg? (e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C14. Pa iaith ydych chi'n teimlo'n fwyaf cartrefol yn ei defnyddio?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Cymraeg
- Saesneg
- Yr un mor gartrefol yn y ddwy iaith
- Arall

Os ydych **dros 16 oed ac yn gweithio**, llenwch yr adran nesaf os gwelwch yn dda. Fel arall, diolch i chi am lenwi'r holiadur. A wnewch chi ei ddychwelyd yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur os gwelwch yn dda.

ADRAN 2: Y Gymraeg yn y gwaith

C15. Sawl person sy'n gweithio i'ch cyflogwr yn y man lle rydych chi'n gweithio?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig - Os nad ydych yn siwr, rhowch amcangyfrif o'r dewisiadau isod

1 - 10	11 - 49	50 - 249	250+	Ddim yn gwybod
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C16. Beth yw cyfanswm nifer y gweithwyr sy'n gweithio i'ch cyflogwr, gan gynnwys lleoliadau a changhennau eraill?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig - Os nad ydych yn siwr, rhowch amcangyfrif o'r dewisiadau isod

1 - 10	11 - 49	50 - 249	250+	Ddim yn gwybod	Dim lleoliadau/canghennau eraill
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C17. Ym mha sector ydych chi'n gweithio?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

Preifat	Gwirfoddol/y trydydd sector	Cyhoeddus	Ddim yn gwybod
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C18. Pan fyddwch chi yn y gwaith ydych chi'n...

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Ydw, bob amser	Ydw, fel arfer	Ydw, weithiau	Nac ydw	Amherthnasol
Siarad Cymraeg â chydweithwyr?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Siarad Cymraeg â phobl y tu allan i'r cwmni/sefydliad?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ysgrifennu rhywbeth yn Gymraeg?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C19. Ydy'ch cyflogwr wedi cynnig rhywbeth i chi i'w wisgo i ddangos eich bod yn gallu siarad Cymraeg (e.e. Bathodyn 'Cymraeg')?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Ydy
- Nac ydy
- Ddim yn gwybod

C20. A oes sgiliau yn y Gymraeg wedi cael eu nodi yn eich disgrifiad swydd?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Does gen i ddim disgrifiad swydd
- Oes - yn hanfodol
- Oes - yn ddymunol
- Nac oes
- Ddim yn gwybod

C21. Pa un o'r datganiadau hyn, yn eich tyb chi, sy'n disgrifio eich cyflogwr orau?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig - Cofiwch, bydd eich atebion yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol

- Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn y rhan fwyaf o agweddau'r busnes, yn ffurfiol ac yn anffurfiol
- Yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ond nid mewn materion busnes ffurfiol
- Ddim yn gefnogol i'r defnydd o'r Gymraeg
- Dim un o'r rhain
- Ddim yn gwybod

Diolch i chi am lenwi'r holiadur hwn.

A wnewch chi ei ddychwelyd yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur.

Os ydych wedi colli'r amlen, neu os nad ydych wedi'i derbyn, anfonwch yr holiadur at

Freepost RRZG-HCJK-LTSE

TNS

Olympus Avenue

Tachbrook Park

Warwick

CV34 6RJ



TNS BMRB



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

beaufortresearch

Arolwg Cenedlaethol Cymru - Arolwg Defnydd Iaith 2014-15

HOLIADUR PERSON IFANC (POBL IFANC 3 – 15 OED)

Y cyfwelydd i lenwi:

RHIF CYFEIRNOD:

RHIF PERSON:

YR HOLIADUR I'W LENWI GAN RIANT/GWARGHEIDWAD AM: _____

Mae'r holiadur hwn yn trafod yr iaith Gymraeg. Rydym am gael gwybod a ydych chi'n gallu siarad Cymraeg a'r mathau o sefyllfaoedd lle byddwch yn defnyddio'r Gymraeg. Bydd eich holl atebion yn cael eu trin yn gyfrinachol. Bydd eich atebion yn cael eu gwneud yn ddiennw fel na fydd neb yn gwybod bod y wybodaeth yn cyfeirio atoch chi, cyn iddynt gael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg a fydd yn defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am yr arolwg hwn, gallwch gysylltu â'r tîm Arolwg Cenedlaethol ar 029 2082 6685 neu anfon neges e-bost at arolygon@cymru.gsi.gov.uk

Gobeithiaf yn fawr y gallwch gyfrannu. Dychwelwch eich holiadur yn yr amlen radbost a ddarperir, neu ei anfon i'r cyfeiriad ar ddiwedd yr holiadur.

Diolch yn fawr i chi ymlaen llaw am eich cymorth.

Yn gywir,

Steven Marshall
Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Lywodraeth Cymru

AWGRYMIADAU DEFNYDDIOL AR GYFER LLENWI'R HOLIADUR HWN

- Rhiant/gwarcheidwad y plentyn a enwir ar y dudalen yma ddylai lenwi'r holiadur hwn. Neu, os yw'r plentyn dros 12 oed, caiff y plentyn ei hun ei lenwi, os yw'n well gan y rhiant/gwarcheidwad a'r plentyn, ond rhaid i'r **rhiant arwyddo'r cydsyniad ar ddiwedd yr holiadur.**
- Darllenwch bob cwestiwn yn ofalus a rhowch groes mewn blwch i nodi eich ateb.
- Dim ond un blwch y bydd yn rhaid i chi roi croes ynddo fel arfer ond darllenwch y cwestiynau'n ofalus gan y bydd angen i chi roi croes mewn mwy nag un blwch gyda rhai cwestiynau.
- Os byddwch yn rhoi croes yn y blwch anghywir neu yn newid eich meddwl, llenwch y blwch yn gyfan gwbl fel hyn ac yna rhowch groes yn y blwch ateb cywir.
- Defnyddiwch **inc du YN UNIG.**
- Atebwch y cwestiwn nesaf os nad yw'n dweud yn wahanol.
- Ar ôl i chi orffen, treuliwch ryw funud neu ddau yn sicrhau eich bod wedi ateb pob cwestiwn y dylech fod wedi'i ateb.
- Mae 3 tudalen i'r arolwg ac ni ddylai gymryd mwy na 5 munud i chi ei gwblhau.

C1. Ydy'ch plentyn yn gallu deall, siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg?

Rhowch groes ym mhob un sy'n berthnasol

Deall Cymraeg llafar	Siarad Cymraeg	Darllen Cymraeg	Ysgrifennu Cymraeg	Dim un o'r uchod
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Os **NAD** ydych wedi rhoi croes yn y blwch 'Siarad Cymraeg' does dim mwy o gwestiynau i'w hateb. Diolch i chi am gyfrannu. Dychwelwch yr holiadur yn yr amlen a ddarparwyd. Os yw'ch plentyn yn **GALLU** 'Siarad Cymraeg', ewch i C2.

C2. Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio gallu'ch plentyn i siarad Cymraeg?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

Yn rhugl yn y Gymraeg	Gall siarad cryn dipyn o Gymraeg	Gall siarad ychydig o Gymraeg yn unig	Gall ddweud ychydig o eiriau yn unig
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C3. Ble yn bennaf dysgodd eich plentyn siarad Cymraeg?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Gartref, fel plentyn ifanc
- Yn yr ysgol feithrin (3-4 oed)
- Yn yr ysgol gynradd (5-10 oed)
- Yn yr ysgol uwchradd (11 oed a throsodd)
- Rhywle arall *Rhowch groes yn y blwch a rhowch fanylion isod*

C4. Pa mor dda mae'r aelodau canlynol o'r teulu yn gallu siarad Cymraeg?

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Cymraeg Rhugl	Eithaf Rhugl	Rhywfaint o Gymraeg	Dim Cymraeg	Ddim yn gwybod	Amherthnasol
Tad y plentyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mam y plentyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Brawd (brodyr)/chwaer (chwior/odd) y plentyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C5. Pa iaith mae eich plentyn yn ei siarad yn bennaf yn y sefyllfaoedd canlynol...

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg	Arall	Amherthnasol
Gartref?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yn yr ysgol?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Yn siarad â ...							
Tad?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Mam?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nain/Mam-gu a Taid/Tad-cu?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ffrindiau?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C6. Pa mor aml mae eich plentyn yn siarad Cymraeg?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

Bob dydd	Bob wythnos	Llai aml	Byth
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C7. Pa ieithoedd mae eich plentyn yn eu defnyddio fel arfer i...

Rhowch groes mewn un blwch yn mhob rhes

	Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg	Arall	Amherthnasol
Anfon neges destun o ffôn symudol at ffrind?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Anfon e-bost at ffrind?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol (e.e. Bebo, Facebook)?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

Atebwch gwestiwn 8 os yw eich plentyn yn yr ysgol uwchradd – fel arall ewch i gwestiwn 9.

C8. Ym mha iaith y dysgir y pynciau canlynol i'ch plentyn yn yr ysgol uwchradd?

Rhowch groes mewn un blwch yn mhob rhes

	Bob amser/ bron bob amser yn Gymraeg	Cymraeg yn bennaf	Cymraeg a Saesneg yn weddol gyfartal	Saesneg yn bennaf	Bob amser/ bron bob amser yn Saesneg	Arall	Amherthnasol
Mathemateg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Gwyddoniaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Daeryddiaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Celf a Dylunio	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dylunio a Thechnoleg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Hanes	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Addysg Gorfforol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Ieithoedd Modern	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cerddoriaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Drama	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C9. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ydy'ch plentyn wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd yn Gymraeg na chafodd ei drefnu gan yr ysgol (e.e. wedi ei drefnu gan glwb chwaraeon cymunedol, Menter Iaith, yr Urdd)...

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Ydy	Nacydy	Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol
digwyddiad neu weithgaredd gymdeithasol neu ddiwylliannol wedi ei gynnal yn Gymraeg (e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
digwyddiad neu weithgaredd chwaraeon wedi ei gynnal yn Gymraeg (e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C10. Yn y flwyddyn ddiwethaf, ydy'ch plentyn wedi mynychu digwyddiad neu weithgaredd yn Gymraeg a gafodd ei drefnu gan yr ysgol ond tu allan i oriau'r ysgol...

Rhowch groes mewn un blwch ym mhob rhes

	Ydy	Nacydy	Ddim yn gwybod/ ddim yn berthnasol
digwyddiad neu weithgaredd gymdeithasol neu ddiwylliannol wedi ei gynnal yn Gymraeg (e.e. cyngerdd, eisteddfod, gig, côr neu gymdeithas)?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
digwyddiad neu weithgaredd chwaraeon wedi ei gynnal yn Gymraeg (e.e. clwb chwaraeon, cymdeithas neu gwrs)?	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>

C11. Pwy lenwodd yr holiadur hwn?

Rhowch groes mewn un blwch yn unig

- Plentyn
- Rhiant/Gwarcheidwad

Y rhiant i lofnodi yma os bydd y plentyn yn llenwi'r holiadur _____

Diolch i chi am llenwi'r holiadur hwn.

A wnewch chi ei ddychwelyd yn yr amlen a ddaeth gyda'r holiadur.

Os ydych wedi colli'r amlen, neu os nad ydych wedi'i derbyn, anfonwch yr holiadur at

Freepost RRZG-HCJK-LTSE
TNS
Olympus Avenue
Tachbrook Park
Warwick
CV34 6RJ